

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 72/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a
Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg,
Llywodraeth Cymru

Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru

Arad Research

Hefin Thomas a Brett Duggan

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:

Dr Catrin Redknap
Prif Swyddog Ymchwil (Iaith Gymraeg)
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 20 825 720
Ebst: catrin.redknap@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 16 Gorffennaf 2014

ISBN 978-1-4734-1733-5

© Hawlfraint y Goron 2014

Tabl cynnwys

1. Cyflwyniad i'r adolygiad	6
2. Cefndir	10
3. Methodoleg.....	15
4. Derbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.....	30
5. Y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.....	42
6. Defnydd ac ansawdd adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.....	48
7. Barn cyhoeddwr	59
8. Casgliadau.....	65
9. Atodiad 1: Data ar farn ymarferwyr ar adnoddau ar gyfer pynciau unigol.....	72
10. Atodiad 2: Cwestiynau'r holiadur i ymarferwyr	89
11. Atodiad 3: Adnoddau wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi	94

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o'r adnoddau a gomisiynwyd gan Gangen Comisiynu Adnoddau, Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru. Prif ffocws yr adolygiad oedd asesu ansawdd yr adnoddau a'r defnydd a wneir ohonynt yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r dystiolaeth a'r casgliadau a gyflwynir yn seiliedig ar waith maes a gwblhawyd gydag ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwy'r adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog rhwng Tachwedd 2012 a Mehefin 2013.
2. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o raglen ymchwil ehangach i werthuso Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Bydd y gwerthusiad hwnnw yn asesu cynnydd yn erbyn nodau ac amcanion y Strategaeth, ac yn ceisio deall pa mor effeithiol y mae gwahanol elfennau'r Strategaeth yn plethu â'i gilydd. Byddwn yn defnyddio casgliadau'r adolygiad hwn wrth ystyried cyfraniad y Cynllun i nodau ac amcanion y Strategaeth yn ei chyfanrwydd.
3. Mae'r Gangen Comisiynu Adnoddau yn gyfrifol am gomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer pob pwnc, oed a gallu o'r Cyfnod Sylfaen i bynciau 14-19 a Chymraeg i Oedolion. Mae'r adnoddau yn ddeunyddiau dosbarth i ddysgwyr nad yw'r farchnad fasnachol yn eu darparu, ac maent yn cael eu comisiynu trwy broses gaffael gan ddefnyddio fframwaith o gontractwyr sydd wedi'u cymeradwyo neu drwy broses dendro sengl. Mae'r adolygiad hwn wedi ei gyfyngu i adnoddau a gynhyrchwyd ar gyfer y grŵp oedran 3-19.
4. Mae'r casgliadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfnod cwmpasu ac ymchwil desg, arolwg ymarferwyr (cynradd, uwchradd ac addysg bellach), arolwg cyhoeddwy'r ac ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a dysgwyr. Cafwyd 448 o ymatebion i'r arolwg ymarferwyr, a chynhaliwyd ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a dysgwyr mewn saith ysgol gynradd, saith ysgol uwchradd a phedwar sefydliad addysg bellach.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r arolwg cyhoeddwy gan gwmnïau a sefydliadau addysgol sydd yn rhan o fframwaith cyhoeddwy adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y fethodoleg yn Adran 3.

Casgliadau mewn perthynas â derbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

5. Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad hwn yn dangos bod mwyafrif yr ymarferwyr a holwyd yn derbyn gwybodaeth am yr adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael drwy sawl ffynhonnell. Serch hynny, roedd nifer o ymarferwyr (gan gynnwys penaethiaid adrannau ac aelodau uwch dimau ysgolion) yn ansicr a oeddynt yn derbyn yr holl wybodaeth berthnasol ynglŷn ag adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
6. Mae sylwadau ymarferwyr yn awgrymu eu bod yn teimlo bod lle i symleiddio'r broses o ddsbarthu gwybodaeth am adnoddau. Roedd nifer o ymarferwyr a chyhoeddwy o'r farn y byddai un ffynhonnell gynhwysfawr ganolog o wybodaeth ar yr holl adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael yn ddefnyddiol i gyd-fynd â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn ar hyn o bryd.
7. Mae'r dystiolaeth gan gyhoeddwy yn cefnogi'r farn ymysg rhai ymarferwyr nad ydynt yn hyderus eu bod yn ymwybodol o'r holl adnoddau sydd ar gael yn eu pynciau a bod dull marchnata'r adnoddau yn anghyson.

Casgliadau mewn perthynas â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

8. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod y rhaglen gomisiynu adnoddau wedi cynyddu a gwella'r dewis o adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael ar draws y cyfnodau allweddol ac ar draws ystod eang o bynciau. Mynegodd nifer o ymarferwyr a chyhoeddwy eu barn na fyddai'r un ystod o adnoddau addysgol cyfrwng

Cymraeg a dwyieithog ar gael yn absenoldeb y rhaglen gomisiynu adnoddau.

9. Er bod y dystiolaeth yn dangos bod cynnydd wedi bod yn y dewis o adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ymddengys bod barn gymysg gan ymarferwyr ynglŷn â'r dewis sydd ar gael iddynt. Awgryma'r dystiolaeth gan ymarferwyr a dysgwyr ar draws sectorau a phynciau gwahanol nad oes digon o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael iddynt. Er eu bod yn croesawu'r hyn sydd ar gael, ymddengys bod y mwyafrif yn cymharu'r hyn sydd ar gael yn y Gymraeg gyda'r dewis o adnoddau cyfrwng Saesneg.

Casgliadau mewn perthynas â defnydd ac ansawdd adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

10. Roedd barn gadarnhaol gan nifer o ymarferwyr a dysgwyr ar ansawdd yr adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio, gan gynnwys llawer o'r adnoddau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.
11. Awgryma'r dystiolaeth gan ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwr bod yr adnoddau sydd wedi'u comisiynu drwy'r rhaglen yn helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Serch hynny, dengys y dystiolaeth bod galw am ragor o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws ystod eang o bynciau a meysydd, yn enwedig adnoddau rhyngweithiol a deunyddiau eraill sydd yn manteisio ar dechnolegau newydd i gefnogi dulliau addysgu.
12. Nododd ymarferwyr bod diwyg adnoddau, perthnasedd i'r cwricwlwm ac addasrwydd i allu a lefel y dysgwyr, yn ffactorau pwysig wrth ddewis adnoddau. Pwysleisiodd dysgwyr bwysigrwydd y ffactorau hyn yn ogystal, gyda dysgwyr cynradd a Chyfnod Allweddol 3 yn fwy tebygol o bwysleisio diwyg adnoddau, a dysgwyr Blynnyddoedd 12 ac 13 yn pwysleisio perthnasedd i'w cyrsiau.
13. Pwysleisiwyd pwysigrwydd adnoddau rhyngweithiol ac aml-blattform gan bron bob un o'r ymarferwyr cynradd, uwchradd ac addysg bellach mewn

cyfweiliadau. Roedd nifer o ymarferwyr ar draws y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach o'r farn bod angen i fwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fod ar gael ar ffurf rhyngweithiol y gellid eu haddasu. Nododd dysgwyr bod adnoddau rhyngweithiol yn apelio atynt yn fawr, gan gynnwys gemau, gwefannau rhyngweithiol a chynnwys aml-gyfryngol.

14. Awgryma'r dystiolaeth bod galw pellach am adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o ran:

- adnoddau rhyngweithiol y gellir eu haddasu;
- adnoddau cyfoes cyfrwng Cymraeg ar gyfer addysgu Cyfnod Allweddol 3;
- adnoddau ar gyfer cwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;
- clipiau ffilm a gwefannau i gefnogi cyrsiau mewn nifer o bynciau.

Casgliadau yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

15. Cesglir bod y rhaglen gomisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i 'wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg', sef Nod Strategol 5 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r adolygiad hwn yn dangos yn glir bod galw parhaus am raglen gomisiynu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddiwallu anghenion ymarferwyr a dysgwyr. Cesglir bod y rhaglen gomisiynu yn rhan ganolog o'r gwaith i gefnogi Nod Strategol 5 y Strategaeth.

Diolchiadau

16. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd i'r adolygiad hwn. Diolch yn arbennig i'r dysgwyr, ymarferwyr a chyhoeddwr am yr wybodaeth werthfawr a gyflwynwyd sydd yn sail i'r adroddiad a'i ganfyddiadau. Diolch hefyd i'r rhanddeiliaid am eu cymorth wrth ddsbarthu'r holiadur ymarferwyr.

1. Cyflwyniad i'r adolygiad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o'r adnoddau a gomisiynwyd gan Gangen Comisiynu Adnoddau, Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth a'r casgliadau a gyflwynir yn seiliedig ar waith maes a gwblhawyd gydag ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwyr adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog rhwng Tachwedd 2012 a Mehefin 2013.

Cyd-destun yr adolygiad

1.2 Mae'r adolygiad hwn yn rhan o werthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (y Strategaeth), a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2010.¹ Comisiynwyd Arad Research i gwblhau rhaglen o ymchwil a fydd yn ystyried traweffeithiau'r Strategaeth yn ei chyfanrwydd, gan ddefnyddio'r *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* fel sail ar gyfer y rhaglen waith.² Cynigia'r Fframwaith Gwerthuso sylfaen ddefnyddiol ar gyfer mynd i'r afael â'r amcanion a'r cwestiynau ymchwil a nodwyd yn y fanyleb ar gyfer y rhaglen ymchwil.³ Mae'r amcanion hyn yn cynnwys ystyried cynnydd yn erbyn nodau a thargedau'r Strategaeth, yn ogystal ag ystyried a yw'r nodau a'r targedau yn parhau i fod yn briodol. Bwriedir hefyd i'r gwerthusiad ystyried y ffactorau sydd yn rhwystro neu'n helpu i wireddu gweledigaeth y Strategaeth, gan ymchwilio i effeithiolrwydd gwahanol weithgareddau mewn gwahanol ardaloedd a chyd-destunau. Bydd allbynnau'r gwerthusiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru a phartneriaid strategol eraill ac yn awgrymu ffyrdd o addasu neu wella eu cynlluniau i gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg.

¹ Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=c>

² Llywodraeth Cymru (2011) *Fframwaith Gwerthuso Arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*
<http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/120330welsheducationcy.pdf>

³ Manyleb ar gyfer rhaglen annibynnol o ymchwil i werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Hysbysebwyd gan Lywodraeth Cymru trwy wefan GwerthwchiGymru yng Ngorffennaf 2012.

- 1.3 Adolygwyd y Fframwaith Gwerthuso yn gynnar yn 2013 fel rhan o'r rhaglen ymchwil gyfredol; adeiladwyd ar y theori newid, a datblygwyd model rhesymeg ar gyfer y rhaglen ymchwil. Mae'r cwestiynau sydd wedi eu hadnabod yn sgil y broses honno yn ein galluogi i ystyried arwyddocâd rhaglen gomisiynu adnoddau Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun y gwerthusiad llawn o'r Strategaeth.
- 1.4 Cyfeiria Nod Strategol 5 y Strategaeth at 'wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg'. Oddi fewn y Nod Strategol hwn, ceir amcanion penodol sy'n anelu at 'gynyddu a gwella'r amrywiaeth o adnoddau addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg' (amcan strategol AS5.2) a 'chodi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o adnoddau a chymwysterau cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg' (amcan strategol AS5.4).
- 1.5 Mae'r cwestiynau isod yn dehongli cwestiynau'r Fframwaith Gwerthuso ac yn eu cysylltu yn benodol â'r rhaglen gomisiynu adnoddau. Cyflwynir casgliadau mewn perthynas â'r cwestiynau hyn yn Adrannau 8.18-8.24.
- i. I ba raddau y mae'r rhaglen gomisiynu adnoddau yn cefnogi nodau, deilliannau ac amcanion y Strategaeth? Yn benodol:
 - o Ym mha ffordd y mae'r rhaglen wedi gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg?
 - o A yw'r rhaglen wedi helpu i gynyddu a gwella'r amrywiaeth o adnoddau addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg?
 - ii. A yw'r rhaglen gomisiynu adnoddau yn plethu â/ategu rhaglenni eraill sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth?
 - iii. A fyddai'r adnoddau a gomisiynwyd fel rhan o'r rhaglen wedi cael eu cyhoeddi beth bynnag?

- 1.6 Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn caniatáu dadansoddiad o'r cynnydd hyd yma mewn perthynas â'r amcanion strategol uchod. Caiff tystiolaeth bellach mewn perthynas â'r Nod Strategol o wella cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ei chasglu fel rhan o'r gwerthusiad llawn o'r Strategaeth.

Diben yr adolygiad

- 1.7 Mae'r Gangen Comisiynu Adnoddau yn gyfrifol am gomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer pob pwnc, oed a gallu o'r Cyfnod Sylfaen i bynciau 14-19 a Chymraeg i Oedolion. Mae'r adnoddau yn ddeunyddiau dosbarth i ddysgwyr nad yw'r farchnad fasnachol yn eu darparu, ac maent yn cael eu comisiynu trwy broses gaffael gan ddefnyddio fframwaith o gontractwyr sydd wedi'u cymeradwyo neu drwy broses dendro sengl. Cyhoeddir oddeutu 250 o deitlau yn flynyddol mewn amrywiaeth o gyfryngau.

- 1.8 Cytunwyd yn ystod cyfnod cychwynnol yr adolygiad mai prif ffocws yr adolygiad fyddai asesu ansawdd yr adnoddau a'r defnydd a wneir ohonynt yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach na phrosesau comisiynu.

Diben yr adolygiad oedd deall:

- pa ymwybyddiaeth sydd o'r adnoddau sydd ar gael;
- pa adnoddau y mae ymarferwyr yn eu defnyddio, a phaham;
- i ba raddau y mae'r adnoddau a ddefnyddir yn cwrdd ag anghenion ymarferwyr / anghenion y cwricwlwm;
- beth yw barn ymarferwyr a dysgwyr ar ansawdd adnoddau;
- beth yw eu barn ar fformat adnoddau;
- sut mae arddulliau addysgu yn dylanwadu ar ddewis ymarferwyr o'r adnoddau a ddefnyddir;
- sut mae ymarferwyr yn derbyn gwybodaeth am adnoddau newydd yn eu meysydd pwnc;
- pa adnoddau eraill y byddai ymarferwyr yn dymuno eu gweld yn y dyfodol.

1.9 Mae'r ymchwil wedi ei gyfyngu i adnoddau a gynhyrchwyd ar gyfer y grŵp oedran 3-19.

Strwythur yr adroddiad

1.10 Mae Adran 2 yn amlinellu'r cefndir i'r rhaglen comisiynu adnoddau ac Adran 3 yn cyflwyno'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad. Mae Adran 4 yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad mewn perthynas â'r wybodaeth y mae ymarferwyr a dysgwyr yn ei derbyn am adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn Adran 5 amlinellir canfyddiadau mewn perthynas â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael. Yn Adran 6, ceir barn ymarferwyr a dysgwyr ar yr adnoddau y maent yn eu defnyddio, ac yn Adran 7 cyflwynir canfyddiadau a gasglwyd gan gyhoeddwyr. Cyflwynir casgliadau'r adolygiad yn Adran 8. Mae gwybodaeth benodol ynglŷn â'r canfyddiadau a gasglwyd mewn perthynas â phynciau unigol wedi ei chynnwys yn Atodiad 1. Mae'r cwestiynau a holwyd yn yr holiadur i ymarferwyr wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

2. Cefndir

- 2.1 Mae Cangen Comisiynu Adnoddau Uned y Gymraeg mewn Addysg yn ymgymryd â'r gwaith o gomisiynu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer pob pwnc, oedran a gallu o'r Cyfnod Sylfaen hyd at bynciau 14-19 a Chymraeg i Oedolion. Mae'r adnoddau hyn yn ddeunyddiau ystafell ddosbarth nad yw'r farchnad fasnachol yn eu darparu ac yn cynnwys deunyddiau sy'n cefnogi addysgu a dysgu:
- Cymraeg fel pwnc, iaith gyntaf ac ail iaith;
 - pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - agweddau sy'n benodol i Gymru ar y cwricwlwm.⁴
- 2.2 Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o'r broses gomisiynu adnoddau er mwyn gosod y cefndir i'r adolygiad a'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adrannau dilynol.

Adnabod a blaenoriaethu adnoddau

- 2.3 Cam cyntaf y broses gomisiynu yw adnabod a blaenoriaethu'r adnoddau sydd eu hangen. Mae ymgynghoriad yn digwydd yn flynyddol er mwyn casglu tystiolaeth o'r anghenion tybiedig. Cesglir tystiolaeth gan ymarferwyr yn ogystal â chyhoeddwyr, ymgynghorwyr, arolygwyr, byrddau arholi a hyfforddwyr athrawon.
- 2.4 Mae paneli ymgynghorol, sy'n cyfarfod yn flynyddol, yn darparu cyngor manwl ar y deunyddiau sydd eu hangen o fewn pob maes pwnc. Mae'r paneli hyn yn cynnwys hyd at 12 aelod, sef athrawon neu ddarlithwyr sydd wedi cael eu henwebu, neu weithwyr proffesiynol eraill sydd ag arbenigedd priodol, gyda chynrychiolaeth gyfartal o'r sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach. Athrawon dosbarth yw'r mwyafrif ar bob panel. Yn ogystal, ystyrir materion daearyddol, rhyw a chydbwysedd

⁴ Deunyddiau Cymraeg a gomisiynir yn bennaf neu fe allant fod yn ddwyieithog os ydynt yn cefnogi cyflenwi agweddau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n benodol i Gymru. Cyfeirir at farn ymarferwyr ynglŷn ag adnoddau 'Cymraeg a dwyieithog' yn yr adroddiad hwn.

ieithyddol wrth ddewis aelodaeth panel. Mae aelodaeth pob panel ymgynghorol yn cael ei adolygu yn flynyddol, gyda golwg ar gynnal dilyniant o flwyddyn i flwyddyn, ond hefyd i ehangu'r sylfaen ymgynghorol.

2.5 Mae pob panel pwnc yn gweithio i raglen dreigl dwy i dair blynedd, ac yn rhoi sylw i brif flaenoriaethau gwahanol grwpiau oedran. Mae'r paneli yn cael eu harwain gan arbenigwyr pwnc sydd ar gytundeb i Lywodraeth Cymru. Mae aelodau'r panel yn derbyn gwybodaeth am adnoddau a gyhoeddwyd neu a gomisiynwyd yn ddiweddar, y syniadau a dderbyniwyd gan athrawon a chyhoeddwyr, adborth swyddogion ysgol Cyngor Llyfrau Cymru, yn ogystal â gwybodaeth am bolisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a datblygiadau cwricwlwm a chymwysterau.

2.6 O ran y deunyddiau sydd yn cael eu cynhyrchu, y blaenoriaethau sydd yn sail i'r gwaith yw:

- cynnal a gwella lefel y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm cyfan, gan gymryd i ystyriaeth anghenion disgyblion o bob gallu gan gynnwys rhai ag anghenion dysgu ychwanegol;
- rhoi sylw i feysydd cwricwlwm lle mae diffyg darpariaeth sylweddol wedi cael ei adnabod;
- diwallu anghenion y datblygiadau cwricwlwm newydd ac ymateb i fentrau newydd, yn enwedig o ran codi safonau llythrennedd a rhifedd;
- diwallu anghenion sy'n deillio o ddatblygiadau technolegol newydd; a
- diwallu gofynion asesu statudol a chymwysterau.

Trosolwg o'r rhaglen gomisiynu

2.7 Llunnir rhaglen gomisiynu flynyddol o tua 60 o brosiectau wedi'i seilio ar gyngor y paneli ymgynghorol. Mae'r prosiectau hyn yn arwain at gyhoeddiad blynyddol o tua 250 o deitlau mewn amrywiaeth o gyfryngau

(print a digidol).⁵ Mae'r teitlau yn cynnwys adnoddau gwreiddiol ac addasiadau. Mae'r amser i gwblhau holl gamau'r broses – o adnabod anghenion i gyhoeddi adnodd – yn amrywio o flwyddyn i dair blynedd yn dibynnu ar faint a ffurf yr adnodd.

- 2.8 Dyfarnwyd 212 o gytundebau gwerth £7.2m gan Lywodraeth Cymru rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2013. O'r rhain, roedd 24 (11 y cant) wedi'u hanelu at ddysgwyr 3-7 oed, 50 (24 y cant) at ddysgwyr 7-11 oed, 40 (19 y cant) at ddysgwyr 11-14 oed, 69 (33 y cant) at ddysgwyr 14-16 oed, a 74 at ddysgwyr dros 16 oed.⁶ Roedd y pynciau yn cynnwys dewisiadau poblogaidd megis hanes a daearyddiaeth, yn ogystal â phynciau STEM, a phynciau sy'n denu llai o ymgeiswyr fel y gyfraith a chymdeithaseg.
- 2.9 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn yr adnoddau a gomisiynir yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y costau cynhyrchu a'r incwm gwerthiant a ragwelir i'r cyhoeddwr. Mae'r cyhoeddwr yn derbyn incwm o werthiant yr adnoddau, ac eithrio adnoddau ar-lein sy'n cael eu cynnal ar Hwb⁷ ac sydd ar gael yn rhad ac am ddim.

Tendro

- 2.10 Comisiynir adnoddau gan Lywodraeth Cymru, yn bennaf trwy broses gaffael sy'n defnyddio fframwaith o gontractwyr cymeradwy. Mae'r hawlfraint yn y deunydd yn aros gyda'r cyhoeddwr. Lle mae materion hawlfraint penodol, gellir dyfarnu cytundebau drwy broses tendr sengl. Mae pob prosiect yn gytundeb rhwng y cyhoeddwr a Llywodraeth Cymru. Mae'r manylebau prosiect unigol yn cwmpasu holl elfennau'r broses gyhoeddi, o ddatblygu deunyddiau i farchnata'r cynnyrch gorffenedig.

⁵ Gall unrhyw brosiect gynnwys nifer o deitlau.

⁶ Mae cyfanswm y canrannau dros gant y cant oherwydd bod nifer o brosiectau wedi'u hanelu at ddysgwyr mewn mwy nag un ystod oedran.

⁷ Gweler <https://hwb.wales.gov.uk/>

Cytundeb grant Llywodraeth Cymru a CBAC

2.11 Yn 2009 sefydlwyd cytundeb grant gyda CBAC i gyhoeddi prosiectau a flaenoriaethwyd lle'r oedd CBAC mewn sefyllfa unigryw i ymgymryd â'r gwaith, sef:

- cyhoeddiad trydydd parti o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer arholiadau CBAC;
- cyhoeddi ac ailargraffu testunau cyfrwng Cymraeg hanfodol eraill gan drydydd parti sydd wedi'u cynnwys mewn manylebau arholiadau CBAC, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion â nam ar eu golwg;
- unrhyw brosiectau trydydd parti eraill y gallai CBAC, sydd mewn sefyllfa unigryw, eu cwblhau.

Monitro a sicrhau ansawdd

2.12 Mae pob prosiect yn cael ei fonitro i sicrhau safonau addysgol yr adnoddau, priodoldeb yr iaith a ddefnyddir ynddynt, ac ansawdd y cynhyrchu. Mae'r ansawdd yn cael ei fonitro gan arbenigwyr pwnc ar gytundeb i'r Gangen Comisiynu Adnoddau, gyda chymorth un aelod o'r panel adnabod anghenion, ynghyd â thri unigolyn arall gydag arbenigedd priodol, yn ddelfrydol athrawon/darlithwyr cyfredol.

2.13 Mae'n ofynnol i gyhoeddwy'r dreialu deunyddiau drafft gyda'r gynulleidfa darged yn ystod y cyfnod datblygu, er mwyn cael adborth uniongyrchol o'r ystafell ddosbarth.

Marchnata

2.14 Mae ymarferwyr yn cael gwybodaeth am yr adnoddau a gyhoeddwyd mewn nifer o ffyrdd. Mae'n ofynnol i gyhoeddwy'r gynhyrchu a dosbarthu taflenni i ysgolion, ac mae Cyngor Llyfrau Cymru yn dosbarthu taflenni yn eu pecyn gwybodaeth tymhorol i ysgolion. Mae gwybodaeth lyfryddol

fanwl am yr holl deitlau a gomisiynwyd hefyd ar gael ar wefan Cyngor Llyfrau Cymru, gwales.com. Mae ymweliadau rheolaidd gan swyddogion Cyngor Llyfrau Cymru ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhoi cyfle i athrawon edrych yn fanwl ar yr adnoddau cyn eu prynu.⁸ Mae'r adnoddau hefyd yn cael eu harddangos mewn digwyddiadau megis Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn y gorffennol wedi cytundebu gyda Chyngor Llyfrau Cymru i gynhyrchu cyfres o gatalogau pwnc penodol i'w dosbarthu i bob ysgol a choleg addysg bellach.

2.15 Mae'n ofyniad cytundebol i ddeunyddiau wedi'u hargraffu gael eu dosbarthu gan Adran Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru. Mae hyn yn golygu y gall yr holl ddeunyddiau gael eu harchebu a'u prynu mewn siopau llyfrau ledled Cymru. Mae'r Gangen Comisiynu Adnoddau yn casglu ffigurau gwerthiant ar gyfer pob cyhoeddiad bob chwe mis.

⁸ Yn 2012/13 cynhaliodd tîm o dri Swyddog Ysgolion Cyngor Llyfrau Cymru 655 o ymweliadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd, llyfrgelloedd, ysgolion meithrin a thimau o ymgynghorwyr addysgol. Archebwyd gwerth £489,779 gan ysgolion cynradd ac uwchradd.

3. Methodoleg

- 3.1 Roedd y fethodoleg ar gyfer yr adolygiad hwn yn cynnwys cyfnod cwmpasu ac ymchwil desg, arolwg ymarferwyr (cynradd, uwchradd ac addysg bellach) ac ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a dysgwyr. Casglwyd barn cyhoeddwr yn ogystal trwy gynnal arolwg. Ceir manylion pellach am y camau hyn isod.

Cwmpasu ac ymchwil desg (Tachwedd a Rhagfyr 2012)

- 3.2 Fel rhan o'r ymchwil desg, dadansoddwyd ffigyrau'r Gangen Comisiynu Adnoddau ar werthiant a gwariant ar brosiectau adnoddau. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweiliadau gydag unigolion allweddol fel rhan o'r cyfnod cwmpasu.⁹ Yn dilyn y cyfweiliadau a dadansoddiad o'r data, dewiswyd sampl o ysgolion a sampl o bynciau ar gyfer ymchwil ansoddol (gweler isod).

Arolwg ymarferwyr (Mawrth-Mai 2013)

- 3.3 Cynlluniwyd arolwg electronig i'w ddsbarthu i ysgolion a sefydliadau addysg bellach Cymru. Danfonwyd dolen i'r holiadur at ysgolion trwy gylchlythyr Dysg. Gan dderbyn cyfyngiadau'r dull hwn, dosbarthwyd yr arolwg dros e-bost i benaethiaid neu weinyddwyr 946 o ysgolion (766 ysgol gynradd a 180 uwchradd) gan ofyn iddynt basio'r neges a'r ddolen ymlaen at ymarferwyr eraill a oedd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.¹⁰ Yn ogystal, gofynnwyd i athrawon Cymraeg Ail Iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lenwi'r holiadur.¹¹ Cysylltwyd â rhai ysgolion dros y ffôn er mwyn sicrhau ymateb gan o leiaf un ysgol ym mhob

⁹ Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda swyddogion Cyngor Llyfrau Cymru, Llywodraeth Cymru (Hwb a'r Gangen Comisiynu Adnoddau), CYDAG a Colegau Cymru.

¹⁰ Defnyddiwyd sampl cyfleus o ysgolion; sef ysgolion yr oedd gan y tîm ymchwil gyfeiriad e-bost ar eu cyfer. Ceir trafodaeth ar gyfyngiadau'r sampl yn adrannau 3.27-3.33.

¹¹ Bydd gwaith pellach i werthuso elfennau Cymraeg Ail Iaith y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn digwydd yn 2014.

awdurdod lleol a danfonwyd copïau papur at 50 o ysgolion cynradd er mwyn cynyddu'r sampl yn y sector honno. Yn ogystal, gofynnwyd i nifer o bartneriaid godi ymwybyddiaeth ynghylch yr holiadur ac annog ymarferwyr i ymateb.¹²

- 3.4 Cafwyd 448 o ymatebion i'r arolwg, gyda 313 o'r rhain yn cwblhau'r holl gwestiynau gan gynnwys cwestiynau ar ddefnydd adnoddau penodol o fewn eu maes pwnc. Nid oedd yn bosib cyfrifo'r gyfradd ymateb gan nad oedd modd gwybod faint o'r ysgolion wnaeth gylchredeg yr holiadur i'w staff a faint o ymarferwyr wnaeth ei dderbyn. Ceir trafodaeth bellach ar yr heriau methodolegol a wynebwyd yn ystod yr adolygiad o Adran 3.23 i 3.33.


Proffil ymatebwyr yr arolwg ymarferwyr

- 3.5 Roedd 53 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn athrawon pwnc gyda 25 y cant yn benaethiaid adran a 12 y cant yn benaethiaid blwyddyn neu gyfnod allweddol. Roedd 31 y cant o'r ymatebwyr â swyddogaeth arall gan gynnwys: penaethiaid (14 y cant o'r holl ymatebwyr); penaethiaid cynorthwyol neu ddirprwy benaethiaid (chwech y cant); penaethiaid maes (e.e. Llythrennedd, Dwyieithrwydd, Anghenion Dysgu Ychwanegol) (naw y cant); a chynorthwywyr dosbarth (dau y cant).¹³

¹² Gan gynnwys awdurdodau lleol, undebau athrawon (UCAC, NAHT Cymru, ATL), hyrwyddwyr dwyieithrwydd a Colegau Cymru.

¹³ Yn seiliedig ar 417 o ymatebwyr allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).


Ffigur 1. Swyddogaeth yr ymatebwyr



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=417. Gall cyfanswm y canrannau ddod i dros 100% oherwydd bod modd dewis mwy nag un opsiwn.

3.6 Roedd 58 y cant o'r ymatebwyr yn addysgu'n bennaf yn y sector uwchradd, gyda 31 y cant yn addysgu'n bennaf yn y sector cynradd ac 11 y cant yn y sector addysg bellach.¹⁴

Ffigur 2. Sector yr oedd yr ymatebwyr yn addysgu'n bennaf ynddi




Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=406

3.7 O ran ystod oedran y dysgwyr a addysgir gan ymatebwyr, roedd 60 y cant o'r ymatebwyr yn addysgu dysgwyr 14-16 oed, gyda 57 y cant yn

¹⁴ Yn seiliedig ar 406 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

addysgu dysgwyr 11-14 oed a 51 y cant yn addysgu dysgwyr dros 16 oed. Roedd 24 y cant o'r ymatebwyr yn addysgu dysgwyr 7-11 oed ac 16 y cant yn addysgu dysgwyr 3-7 oed.¹⁵

Ffigur 3. Ystod oedran y dysgwyr a addysgir gan ymatebwyr




Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=434. Gall cyfanswm y canrannau ddod i dros 100% oherwydd bod modd dewis mwy nag un opsiwn.

3.8 Roedd 51 y cant o'r ymatebwyr yn addysgu yn gyfan gwbl neu bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda 21 y cant o'r ymatebwyr yn addysgu yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gyda pheth darpariaeth Saesneg. Roedd 15 y cant o'r ymatebwyr yn addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ac wyth y cant yn addysgu yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg gyda pheth darpariaeth Gymraeg.¹⁶

¹⁵ Yn seiliedig ar 434 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

¹⁶ Yn seiliedig ar 415 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

Ffigur 4. Cyfrwng addysgu yr ymatebwyr



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=415

- 3.9 O ran y prif bwnc yr oedd yr ymarferwyr uwchradd ac addysg bellach yn ei addysgu, Cymraeg Iaith Gyntaf (39 ymatebwr), Cymraeg Ail Iaith (23), Gwyddoniaeth (22) a Mathemateg (21) oedd fwyaf cyffredin. Dengys y tabl isod nifer yr ymatebwyr ar draws yr holl bynciau a gynrychiolwyd.

Tabl 1. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Beth ydy'r prif bwnc yr ydych yn ei addysgu?'

Prif bwnc	Canran yr ymatebwyr	Nifer yr ymatebwyr
Cymraeg Iaith Gyntaf	14%	39
Cymraeg Ail Iaith	8%	23
Gwyddoniaeth	8%	22
Mathemateg	8%	21
Celf a dylunio	6%	16
Addysg Grefyddol	5%	15
Daearyddiaeth	5%	14
Dylunio a Thechnoleg	5%	14
Hanes	5%	13
Ieithoedd Tramor Modern	4%	12
Addysg Gorfforol	4%	11
Cerddoriaeth	3%	9
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	3%	8
Drama	2%	6
Busnes	2%	5
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	2%	5
Anghenion Dysgu Ychwanegol	1%	4
Trin Gwallt a Harddwch	1%	4
Bagloriaeth Cymru	1%	3
Lletygarwch ac Arlwyo	1%	3
Adeiladwaith	1%	2
Economeg	1%	2
Gwasanaethau Cyhoeddus	1%	2
Peirianeg	1%	2
Y Gyfraith	1%	2
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	0%	1
Amaethyddiaeth	0%	1
Cymdeithaseg	0%	1
Arall ¹⁷	7%	18

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=278

Ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a dysgwyr (Mawrth - Mai 2013)

3.10 Cynhaliwyd ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr a dysgwyr mewn saith ysgol gynradd, saith ysgol uwchradd a phedwar sefydliad addysg bellach. Dewiswyd sampl o ysgolion a fyddai'n cynnwys amrywiaeth yn ddaearyddol ac o ran cyfrwng addysgu. Ceir rhagor o wybodaeth ar y fethodoleg a'r samplau isod.

¹⁷ Gan gynnwys: Saesneg; Sgiliau Gwaith; Arweinyddiaeth a Rheoli; Y cyfryngau creadigol, film a theledu; Ffasiwn; Gofal Cwsmer; Tecstilau; Cyfrifiaduro; Llythrennedd a Rhifedd; Arlwyo; Gweinyddiaeth Busnes; Sgiliau Hanfodol; Gofal Anifeiliaid; Technoleg Cerddoriaeth; Ffotograffiaeth; Datblygiad Plentyn, a rhai a nododd gyfuniad o wahanol bynciau.

Ymarferwyr ysgolion cynradd

3.11 Cynhaliwyd ymweliadau â saith o ysgolion cynradd gyda'r sampl o ysgolion yn cynnwys trawstoriad daearyddol, amrywiaeth o ran eu maint a chategori ieithyddol. Cytunwyd y byddai'r sampl yn cynnwys o leiaf un ysgol o fewn chwe ardal ar draws Cymru.¹⁸ Cytunwyd hefyd i gynnwys o leiaf dwy ysgol dwy ffrwd o fewn y sampl er mwyn gallu trafod adnoddau Cymraeg Ail Iaith gydag ymarferwyr. Dengys Tabl 2 isod y sampl o ysgolion cynradd a ddewiswyd.

Tabl 2. Sampl ysgolion cynradd

Ardal	Ysgolion
De ddwyrain	Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth, Caerdydd (ysgol dwy ffrwd) Ysgol y Berllan Deg, Caerdydd
De orllewin	Ysgol Glan Cleddau, Sir Benfro
Canolbarth	Ysgol Machynlleth, Powys (ysgol dwy ffrwd)
Cymoedd y de	Ysgol Bryn Onnen, Torfaen
Gogledd ddwyrain	Ysgol Dewi Sant, Rhyl, Sir Ddinbych
Gogledd orllewin	Ysgol y Graig, Ynys Môn

Ffynhonnell: Arad Research

3.12 Cynhaliwyd cyfweiliadau dwys (tuag awr o hyd) â chyfanswm o naw o ymarferwyr mewn chwe ysgol gynradd (dim ond disgyblion gymrodd rhan yn y gwaith maes mewn un o'r ysgolion cynradd), gan gynnwys pedwar o benaethiaid a phump o athrawon. Roedd yr athrawon yn cynnwys cydlynnydd Cyfnod Sylfaen, athrawon dosbarth, cydlynnydd llythrennedd, cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol a chydlynnydd Cyfnod Allweddol 2.

3.13 Canolbwyntiodd yr ymchwiler ar ddefnydd ac ansawdd adnoddau mewn pynciau craidd yn ogystal ag unrhyw adnoddau penodol yr oedd ymarferwyr yn dymuno eu trafod. Cynigiwyd cyfle i ymarferwyr dynnu

¹⁸ Sef y gogledd ddwyrain, gogledd orllewin, canolbarth, cymoedd y de, de orllewin a'r de ddwyrain.

syllw at yr adnoddau hynny yr oeddynt yn eu gweld fwyaf defnyddiol, ac fe'u holwyd ymhellach ynglŷn â rhinweddau'r adnoddau hynny.

Ymarferwyr ysgolion uwchradd

3.14 O ran ysgolion uwchradd, datblygwyd fframwaith rhesymeg ar gyfer dewis yr ysgolion a'r pynciau i ganolbwyntio arnynt yn yr ymweliadau. Ar sail y fframwaith rhesymeg hwn, dewiswyd y chwe maes pwnc a ddangosir yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3. Fframwaith rhesymeg ar gyfer dewis ysgolion uwchradd a phynciau

Pwnc	Rhesymau / Rhesymeg	Meini prawf
Addysg Grefyddol	Un o'r dyniaethau Pwnc lle datblygir nifer o adnoddau yn ddwyieithog	Daearyddiaeth: o leiaf un ysgol yn y gogledd orllewin; gogledd ddwyrain; canolbarth; de orllewin; de ddwyrain; cymoedd y de
Cymraeg Iaith Gyntaf	Pwnc craidd Nifer fawr o adnoddau	
Daearyddiaeth	Un o'r dyniaethau Nifer fawr o adnoddau Adnoddau wedi eu datblygu mewn modd 'strwythuredig'	
Gwyddoniaeth	Pwnc craidd Pwnc STEM Pwnc o bwysigrwydd mwy cyffredinol i Gymru ¹⁹	Blwyddyn 12 a 13: O leiaf un ysgol sydd â chweched dosbarth ac o leiaf un sydd heb chweched dosbarth
Pynciau galwedigaethol	Llai datblygedig o ran nifer yr adnoddau	
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Pwnc STEM Pwnc o bwysigrwydd mwy cyffredinol i Gymru Canolbwyntio ar adnoddau digidol Adnoddau wedi eu datblygu mewn modd 'strwythuredig'	Model ieithyddol: Cyfuniad o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Ffynhonnell: Arad Research

3.15 Rhestrir yr ysgolion uwchradd a oedd yn rhan o'r sampl yn nhabl 4 isod.

¹⁹ Gweler

http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/strategic_change/subjects_broader_importance_wales_cy.aspx

Tabl 4. Sampl ysgolion uwchradd

Ardal	Dewisiadau ysgolion
De ddwyrain	Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd
De orllewin	Ysgol Bro Myrddin, Sir Gaerfyrddin
Canolbarth	Ysgol Uwchradd Caereinion, Powys (dwyieithog)
Cymoedd y de	Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf (dwyieithog)
Gogledd ddwyrain	Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam
Gogledd orllewin	Ysgol y Moelwyn, Gwynedd (dim Bl.12/13); Ysgol David Hughes, Ynys Môn

Ffynhonnell: Arad Research

- 3.16 Penderfynwyd y byddai pob ymweliad ag ysgol uwchradd yn canolbwyntio ar un pwnc penodol drwy gyfweiliad dwys (tuag awr) gyda phenaethiaid adran a/neu athrawon o fewn y pwnc hwnnw. Yn ystod yr ymweliadau, fodd bynnag, ceisiwyd casglu barn gyffredinol ar adnoddau gan ymarferwyr eraill. Gwnaethpwyd hyn, lle'r oedd yn bosibl, trwy gynnal cyfweiliadau byr (tua chwarter awr) gydag athrawon.
- 3.17 Cynhaliwyd cyfweiliadau dwys (tuag awr) â chyfanswm o 12 o athrawon pwnc ar draws y saith ysgol uwchradd (roedd deg o'r rhain yn benaethiaid adran). Cynhaliwyd deg cyfweiliad byr (tua 15 munud) gydag athrawon pwnc (roedd pedwar o'r rhain yn benaethiaid adran) a thri chyfweiliad byr gydag aelodau o uwch dimau ysgolion.

Tabl 5. Sampl athrawon uwchradd

Pwnc	Nifer yr athrawon a gymrodd ran mewn cyfweiliad dwys	Nifer yr athrawon a gymrodd ran mewn cyfweiliad byr
Addysg Grefyddol	3	0
Anghenion dysgu ychwanegol	0	1
Celf	0	1
Cymraeg Ail Iaith	2	0
Cymraeg Iaith Gyntaf	2	0
Daearyddiaeth	1	2
Gwyddoniaeth	1	0
Hanes	1	2
Mathemateg	0	4
TGCh	2	0
Cyfanswm	12	10

Ffynhonnell: Arad Research

Ymarferwyr sefydliadau addysg bellach

3.18 Cynhaliwyd cyfweiliadau ac un grŵp trafod gyda chyfanswm o 11 o diwtoriaid addysg bellach ar draws pedwar coleg. Nodir enwau'r sefydliadau a phynciau'r tiwtoriaid yn y tablau isod.

Tabl 6. Sampl sefydliadau addysg bellach

Ardal	Sefydliad
De Cymru	Coleg Sir Gâr Coleg Ceredigion
Gogledd Cymru	Coleg Menai Coleg Llandrillo

Ffynhonnell: Arad Research

Tabl 7. Sampl tiwtoriaid ar gyfer y cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws

Pwnc	Tiwtoriaid
Addysg gorfforol	2
Adeiladwaith	1
Cerddoriaeth	3
Gwasanaethau Cyhoeddus	1
Peirianneg	3
Trin Gwallt a Harddwch	1
Cyfanswm	11

Ffynhonnell: Arad Research

Dysgwyr

3.19 Cymrodd 66 o ddysgwyr mewn ysgolion ran mewn grwpiau trafod (tua 45 munud) mewn saith ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd. Dengys y tabl isod nifer y cyfranogwyr fesul blwyddyn ysgol. Roedd 12 o'r dysgwyr yn dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Tabl 8. Nifer y dysgwyr a gymrodd ran mewn grwpiau trafod

Blwyddyn ysgol	Nifer y dysgwyr
BI 5	8
BI 7	8
BI 8	4
BI 9	24
BI 10	8
BI 12	14
Cyfanswm	66

Ffynhonnell: Arad Research

3.20 Cymrodd 22 o ddysgwyr addysg bellach ran mewn grwpiau trafod mewn pedwar sefydliad addysg bellach. Roedd y rhain yn ddysgwyr a oedd yn dilyn cyrsiau gydag elfen o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog a lle'r oeddynt wedi gwneud peth defnydd o adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Tabl 9. Nifer y dysgwyr addysg bellach a gymrodd ran mewn grwpiau trafod

Pwnc	Nifer y dysgwyr addysg bellach
Addysg Gorfforol	5
Amaethyddiaeth	1
Antur Awyr Agored	4
Cerddoriaeth	1
Gofal Anifeiliaid	3
Gwaith Saer	3
Peirianeg	3
Trin Gwallt a Harddwch	2
Cyfanswm	22

Ffynhonnell: Arad Research

Arolwg cyhoeddwr (Mehfin 2013)

3.21 Dosbarthwyd holiadur byr i gasglu barn cyhoeddwr sydd yn rhan o fframwaith cyhoeddwr adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog Llywodraeth Cymru. Datblygodd Llywodraeth Cymru fframwaith newydd o gyhoeddwr yn ystod Gwanwyn 2013. Penderfynwyd cysylltu â'r 16 cyhoeddwr ar y fframwaith oedd â phrofiad blaenorol o dendro am gytundebau i gyhoeddi adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Cwblhaodd 14 allan o'r 16 cyhoeddwr yr holiadur, yn cynnwys cwmnïau o wahanol feintiau a sefydliadau addysgol (e.e. Prifysgolion).

3.22 Gofynnwyd i gyhoeddwr gyflwyno sylwadau neu ddatgan barn ar:

- p'un ai ydy'r adnoddau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru yn cwrdd â'r galw gan ysgolion, yn eu profiad nhw;
- newidiadau yn natur yr adnoddau a gomisiynir ac a gynhyrchir;
- adborth gan ysgolion ar yr adnoddau a gynhyrchwyd ganddynt; a
- dulliau o farchnata adnoddau.

Ceir crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt yn Adran 8.

Heriau methodolegol yr adolygiad

3.23 Roedd y broses o gynllunio'r ymchwil gydag ymarferwyr a dysgwyr yn cynnig sawl her. Roedd y rhain yn cynnwys: yr angen i ystyried lefelau ymwybyddiaeth amrywiol ymarferwyr; creu a dosbarthu holiadur cryno a chynhwysfawr; trafod adnoddau unigol a chyffredinoli barn; a dehongli'r data a gasglwyd. Ceir trafodaeth bellach ar y materion hyn isod.

Ymwybyddiaeth ymarferwyr o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

3.24 Roedd diffyg ymwybyddiaeth ymarferwyr a dysgwyr o adnoddau a oedd ar gael yn her wrth adrodd ar ganfyddiadau'r ymchwil. Nododd rhai ymarferwyr a dysgwyr bod angen adnoddau penodol o fewn pynciau, heb iddynt fod yn ymwybodol o adnoddau tebyg oedd ar gael eisoes. Er mwyn adlewyrchu hyn, gwiriwyd sylwadau ar adnoddau penodol yn erbyn bas data adnoddau Llywodraeth Cymru.

3.25 Cyfeiriodd ymarferwyr a dysgwyr at gyfuniad o adnoddau a oedd wedi eu comisiynu gan y Gangen Comisiynu Adnoddau ac adnoddau eraill o fewn y cyfweiliadau, gan ddangos nad oeddynt o reidrwydd yn gallu gwahaniaethu rhyngddynt. Ceisiwyd felly wahaniaethu rhwng y rhain yn

yr adroddiad hwn trwy gyfeirio at fas data Llywodraeth Cymru o deitlau ac adnoddau a gomisiynwyd ganddynt. Lle cyflwynir barn ar sail adnoddau a gomisiynwyd gan sefydliadau eraill, nodir nad adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mohono.

Trafod adnoddau unigol a chyffredinoli barn

3.26 Un o'r heriau a wynebwyd yn ystod yr ymchwil oedd casglu barn gyffredinol ymarferwyr a dysgwyr ar adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog tra hefyd yn rhoi cyfle iddynt drafod adnoddau penodol yr oeddynt yn eu defnyddio. Er mwyn goresgyn hyn, cynigiwyd cyfle i gyfranogwyr gynnig sylwadau cyffredinol yn ogystal â thrafod adnoddau unigol o fewn y cyfweliadau.

Cynllunio'r holiadur i ymarferwyr

3.27 Wrth gynllunio'r holiadur penderfynwyd cynnwys cwestiynau a oedd yn casglu barn gyffredinol ymarferwyr (e.e. ar wybodaeth, ymwybyddiaeth a'r dewis o adnoddau) a chwestiynau ar ddefnydd adnoddau penodol o fewn eu meysydd pwnc. Holwyd cwestiynau cyffredinol ar ddechrau'r holiadur cyn rhoi'r cyfle i ymatebwyr gynnig barn ar adnoddau penodol yn hwyrach yn yr holiadur.

3.28 Roedd gwahaniaethu rhwng barn ymarferwyr ar adnoddau a gomisiynwyd gan y Gangen Comisiynu Adnoddau ac adnoddau eraill yr oeddynt yn eu defnyddio yn cyflwyno her arall (gweler 3.25). Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cafodd rhestrau o'r adnoddau a gomisiynwyd gan y Gangen Comisiynu Adnoddau fesul pwnc eu cynnwys o fewn yr holiadur. Cyfeiriwyd ymarferwyr at y dudalen briodol o fewn yr holiadur a oedd yn cynnwys rhestr adnoddau ar gyfer eu prif bwnc. Cynigiwyd y cyfle i ymarferwyr nodi enwau adnoddau eraill yr oeddynt yn eu defnyddio hefyd.

3.29 Gan fod ymarferwyr yn y sector cynradd yn addysgu nifer o wahanol bynciau, penderfynwyd cynnig cwestiwn agored iddynt nodi pa adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd hyn yn osgoi arddangos rhestr hir o adnoddau cynradd a gomisiynwyd o fewn yr holiadur.

Dosbarthu'r holiadur i ymarferwyr

3.30 Roedd y dull o ddsbarthu'r holiadur yn dibynnu ar gydweithrediad ysgolion a cholegau i basio'r neges ynglŷn â'r holiadur ymlaen at ymarferwyr. Oherwydd hyn, nid oedd modd gwybod faint o ymarferwyr ar draws Cymru a dderbyniodd yr holiadur, ac nid yw'n bosibl cyflwyno cyfradd ymateb yr arolwg (gweler adrannau 3.3 a 3.4). Yn ogystal, dosbarthwyd yr holiadur at sampl cyfleus o ysgolion, ac felly nid yw'r sampl yn gynrychioliadol o holl ysgolion Cymru.

Dehongli'r data a'u harwyddocâd

3.31 Fel sydd wedi ei nodi yn 3.30, nid yw'n bosibl cyflwyno cyfradd ymateb yr arolwg, ac nid yw'r sampl yn gynrychioliadol o ysgolion ac ymarferwyr ar draws Cymru. Yn ogystal, roedd yr arolwg yn seiliedig ar y rheini a ddewisodd ymateb i'r holiadur, a rhaid cydnabod y cyfyngiadau sydd yn gysylltiedig â hyn. Gallai rhai mathau o ymarferwyr fod yn fwy tebygol o ymateb nag eraill - er enghraifft, gallai ymarferwyr a oedd â barn gref ynglŷn ag adnoddau fod yn fwy tebygol o ymateb nag ymarferwyr eraill, gan greu tuedd yn y sampl. Er bod trefnu ymweliadau ag ysgolion penodol wedi bod yn ymgais i oresgyn unrhyw duedd yn y sampl, dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad.

3.32 Nodir nifer yr ymatebwyr fesul sector (h.y. cynradd, uwchradd ac addysg bellach) yn yr adroddiad hwn lle adroddir arnynt yn unigol. Nid yw'r sampl, fodd bynnag, yn gynrychioliadol o ran sector yr ymatebwyr, a dylid ystyried hynny wrth ddehongli'r data. Adroddir ymatebion ymarferwyr mewn sectorau a phynciau unigol yn erbyn cyfartaledd y prif sampl o ymarferwyr yn hytrach na cheisio cymharu gydag is-samplau

eraill yn uniongyrchol. Serch hynny, mae angen gofal wrth ddehongli arwyddocâd y cymariaethau hyn. Yn ogystal, dylid cadw mewn cof bod yr is-samplau o ymatebwyr fesul sector neu bwnc yn fach o'u cymharu â'r prif sampl.

3.33 Nid yw'r data a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn yn caniatáu asesu'r gwrthffeithiol wrth ystyried traweffaith y rhaglen gomisiynu adnoddau. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen ystyried y traweffaith ar ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwyr petai'r rhaglen gomisiynu adnoddau ddim yn bodoli. Er na wnaeth yr adolygiad holi cwestiynau penodol ar y pwyntiau hyn, mynegodd nifer o ymarferwyr a chyhoeddwyr eu barn, a chrynhwir y farn hon yn Adran 8.

4. Derbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

4.1 Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad mewn perthynas â'r wybodaeth y mae ymarferwyr a dysgwyr yn ei derbyn am adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.


Ffynonellau gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

4.2 O ran ffynonellau gwybodaeth, roedd 64 y cant o'r ymarferwyr yn derbyn gwybodaeth gan gydweithwyr a 52 y cant gan CBAC. Roedd 44 y cant yn derbyn gwybodaeth gan Gyngor Llyfrau Cymru a 39 y cant yn uniongyrchol gan gyhoeddwr. Roedd 25 y cant o'r ymatebwyr yn derbyn gwybodaeth gan awdurdod lleol a 24 y cant gan Lywodraeth Cymru.²⁰ Roedd 16 y cant yn derbyn gwybodaeth gan undebau athrawon ac 11 y cant o ffynonellau eraill.²¹

²⁰ Yn seiliedig ar 409 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

²¹ Roedd y rhain yn cynnwys athrawon bro, Colegau Addysg Bellach, sefydliadau cenedlaethol (e.e. Colegau Cymru a CILT Cymru) a sefydliadau rhanbarthol (e.e. Consortiwm Addysg Gogledd Cymru).

Ffigur 5. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Gan bwy ydych yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=409. Gall cyfanswm y canrannau ddod i dros 100% oherwydd bod modd dewis mwy nag un opsiwn.

4.3 Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector cynradd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan Gyngor Llyfrau Cymru (70 y cant) a'r awdurdod lleol (60 y cant). Roeddynt ychydig yn fwy tebygol o dderbyn gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru (37 y cant) a chan gyhoeddwyr (47 y cant) tra'r oeddynt ychydig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o dderbyn gwybodaeth gan gydweithwyr (53 y cant).²²

4.4 Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector uwchradd ychydig yn llai tueddol na'r cyfartaledd i dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan yr awdurdod lleol (12 y cant). Roeddynt ychydig yn fwy tueddol i dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan CBAC (61 y cant)

²² Yn seiliedig ar 121 o ymatebwyr cynradd allan o 127 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn). Gweler Adrannau 3.31 a 3.32 am gyfyngiadau dehongli'r canlyniadau fesul sector.

nag ymatebwyr cynradd (47 y cant) neu ymatebwyr addysg bellach (21 y cant).²³

- 4.5 Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector addysg bellach yn llai tebygol na'r cyfartaledd o dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan CBAC (21 y cant), gan Gyngor Llyfrau Cymru (17 y cant) a chan gyhoeddwyr (14 y cant). Nododd 26 y cant ohonynt eu bod yn derbyn gwybodaeth o ffynonellau eraill. Roedd y rhain yn cynnwys 20 y cant a oedd yn derbyn gwybodaeth gan ColegauCymru neu a enwodd eu Hyrwyddwr Dwyieithrwydd²⁴ fel ffynhonnell.²⁵
- 4.6 Adlewyrchwyd yr ymatebion i'r holiadur yn y cyfweiliadau gydag ymarferwyr. Enwyd amryw o ffynonellau gwybodaeth gan gynnwys y rhai uchod. Roedd mwyafrif yr ymarferwyr wedi derbyn gwybodaeth gan gydweithwyr, trwy ymweliadau gan Gyngor Llyfrau Cymru a chan ymgynghorwyr yr awdurdod lleol. Roedd nifer wedi derbyn gwybodaeth yn uniongyrchol gan gyhoeddwyr, mewn cynadleddau a chan undebau athrawon a sefydliadau megis CBAC. Roedd rhai unigolion yn canfod adnoddau o ffynonellau eraill gan gynnwys siopau llyfrau, stondinau mewn eisteddfodau a thrwy gyhoeddiadau eraill (e.e. papurau bro).
- 4.7 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr mewn sefydliadau addysg bellach yn ddibynnol ar gefnogaeth Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd i adnabod (ac i greu) adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Roedd nifer ohonynt hefyd yn derbyn gwybodaeth gan ColegauCymru, a rhai wedi bod yn rhan o rwydwaith ymarferwyr trin gwallt cyfrwng Cymraeg wedi'i drefnu gan ColegauCymru. Roedd rhai ymarferwyr addysg bellach yn derbyn

²³ Yn seiliedig ar 230 o ymatebwyr uwchradd allan o 234 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

²⁴ Mae Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn cydweithio gydag uwch dimau rheoli sefydliadau addysg bellach i geisio cynyddu nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.


²⁵ Yn seiliedig ar 42 o ymatebwyr addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn). Gweler Adrannau 3.31 a 3.32 am gyfyngiadau dehongli'r canlyniadau fesul sector.

gwybodaeth gan ymgynghorwyr ac yn dod i wybod am adnoddau trwy gysylltiadau ag ysgolion.

Ffurf derbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

4.8 O ran ffurf y wybodaeth yr oedd ymarferwyr yn ei derbyn, roedd dros hanner yr ymatebwyr yn derbyn gwybodaeth ar lafar (57 y cant), mewn catalogau (55 y cant) a thrwy e-bost (54 y cant).²⁶ Yn ogystal, roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn derbyn gwybodaeth trwy'r post (49 y cant) neu trwy wefan Hwb (44 y cant). Roedd 25 y cant o'r ymatebwyr yn derbyn gwybodaeth o siopau llyfrau a 15 y cant o wefan gwales.com.

Ffigur 6. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Ar ba ffurf ydych yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=394. Gall cyfanswm y canrannau ddod i dros 100% oherwydd bod modd dewis mwy nag un opsiwn.

4.9 Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector cynradd ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o dderbyn gwybodaeth ar ffurf catalogau (73 y cant), drwy'r post (61 y cant), siopau llyfrau (38 y cant) a

²⁶ Yn seiliedig ar 394 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

gwefan gwales.com (24 y cant).²⁷ Roeddynt ychydig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o dderbyn gwybodaeth trwy wefan Hwb (34 y cant).

4.10 Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector addysg bellach ychydig yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o dderbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog trwy e-bost (78 y cant).²⁸ Roeddynt ychydig yn llai tebygol o dderbyn gwybodaeth ar lafar (40 y cant) a thrwy gatalogau (27 y cant).

Barn ymarferwyr ar y modd y caiff gwybodaeth ei dosbarthu

4.11 Barn gymysg oedd gan yr ymatebwyr ynglŷn â'r modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu neu ei marchnata, gyda 40 y cant o'r ymatebwyr yn nodi nad oedd 'yn dda nac yn wael'. Roedd 26 y cant o'r farn bod y modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu/marchnata i ysgolion yn 'dda' (dau y cant yn nodi ei fod yn 'dda iawn'). Roedd 24 y cant o'r farn ei fod yn 'wael' ac wyth y cant ei fod yn 'wael iawn' (gweler Ffigur 7).


4.12 Ar y cyfan, roedd barn ymatebwyr ynglŷn â'r 'modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu/marchnata' yn gyson ar draws y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach. Y prif wahaniaeth i'w nodi oedd bod canran uwch o ymatebwyr o'r sector cynradd o'r farn bod 'y modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu/marchnata' yn 'dda' neu'n 'dda iawn': 45 y cant yn adrodd felly o'i gymharu â 28 y cant ar gyfartaledd. Roedd ymatebwyr uwchradd

²⁷ Yn seiliedig ar 121 o ymatebion allan o 127 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

²⁸ Yn seiliedig ar 37 o ymatebwyr addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

(20 y cant) ac addysg bellach (18 y cant) yn llai tebygol na'r cyfartaledd o nodi hynny.²⁹

Ffigur 7. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Beth yw eich barn ar y modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu/marchnata i ysgolion?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=402

4.13 Ar y cyfan, roedd yr ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau o'r farn bod llawer o wybodaeth ar gael ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ond nad oedd cysondeb o ran pwy oedd yn derbyn gwybodaeth ac ar ba ffurf. Nododd sawl ymarferwr eu bod yn derbyn llawer o wybodaeth am gyhoeddiadau newydd neu gynigion arbennig ond nad oedd ganddynt sicrwydd eu bod yn gwybod am yr holl adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog oedd ar gael. Nododd nifer o ymarferwyr nad oedd ganddynt ddigon o amser i ymchwilio a dewis yr adnoddau gorau neu fwyaf perthnasol.

“Mae llawer iawn o wybodaeth ond dim llawer o amser i edrych drwyddo. Mae'n bwysig cael mewnbwn gan swyddogion sydd â dealltwriaeth dda o'r holl adnoddau ac ymateb ysgolion a dysgwyr iddynt.”

Ymarferwr Cymraeg Iaith Gyntaf uwchradd (Cyfweiliad)

²⁹ Yn seiliedig ar 118 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 228 uwchradd allan o 234 a 40 addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn). Gweler Adrannau 3.31 a 3.32 am gyfyngiadau dehongli'r canlyniadau fesul sector.

4.14 Roedd nifer o ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau yn poeni nad oeddynt yn ymwybodol o'r holl ddewis o adnoddau oedd ar gael. Roedd ymarferwyr mewn ysgolion dwyieithog a cholegau addysg bellach a gymrodd ran mewn cyfweiliadau yn fwy tueddol o fod yn ansicr a oeddynt yn cael gwybod am yr holl adnoddau oedd ar gael. Ategwyd hyn gan rai ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.


4.15 Roedd nifer o ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau yn ddibynol ar ymgynghorwyr eu hawdurdod lleol am wybodaeth ynglŷn ag adnoddau. Roedd sawl athro yn pryderu nad oedd ymgynghorwyr yn mynd i fod ar gael iddynt yn y dyfodol.

Barn ymarferwyr ynglŷn â'r ffynhonnell y byddai orau ganddynt dderbyn gwybodaeth ohoni

4.16 Roedd 54 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg ymarferwyr o'r farn mai gan CBAC fyddai orau ganddynt dderbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gyda bron hanner yn nodi Llywodraeth Cymru (48 y cant), Cyngor Llyfrau Cymru (47 y cant), yr awdurdod lleol (45 y cant), a chyhoeddwyr (44 y cant).³⁰

³⁰ Yn seiliedig ar 393 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn). Roedd ymarferwyr uwchradd (65 y cant) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (54 y cant) o nodi CBAC. Roedd ymarferwyr cynradd (36 y cant) ac addysg bellach (38 y cant) yn llai tebygol na'r cyfartaledd i nodi CBAC.

Ffigur 8. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Gan bwy fyddai orau gennyh dderbyn gwybodaeth am adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=393. Gall cyfanswm y canrannau ddod i dros 100% oherwydd bod modd dewis mwy nag un opsiwn.

4.17 Roedd rhai gwahaniaethau rhwng sectorau o ran y ffynhonnell fyddai orau gan ymatebwyr dderbyn gwybodaeth ganddi ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gan yr awdurdod lleol (67 y cant o'r ymatebwyr) neu Gyngor Llyfrau Cymru (62 y cant) fyddai orau gan ymatebwyr cynradd dderbyn gwybodaeth. Gan CBAC (65 y cant) fyddai orau gan ymatebwyr uwchradd dderbyn gwybodaeth. Gan Lywodraeth Cymru (53 y cant) fyddai orau gan ymatebwyr o'r sector addysg bellach dderbyn gwybodaeth.³¹

4.18 Nid oedd barn gref ymysg ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau ynglŷn â chan bwy yr oeddynt yn derbyn gwybodaeth cyn belled â bod y wybodaeth yn dod o ffynhonnell â hygrededd, ei bod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol. Ategwyd hyn mewn sylwadau ansoddol nifer o ymatebwyr i'r

³¹ Yn seiliedig ar 115 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 225 uwchradd allan o 234, a 39 addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

holiadur, gyda sawl ymarferwr yn nodi y byddai'n well ganddynt un ffynhonnell yn unig o wybodaeth am yr holl adnoddau cyfrwng Cymraeg.

“Dim ots gan bwy – y peth pwysig yw cael y wybodaeth i gyd yn drefnus mewn un lle.”


Ymatebwr i'r arolwg ymarferwyr

Barn ymarferwyr ynglŷn â'r ffurf orau o dderbyn gwybodaeth

4.19 Roedd 84 y cant o'r ymatebwyr o'r farn mai trwy e-bost oedd orau ganddynt dderbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gydag ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr yn nodi mai drwy'r post (45 y cant) neu gatalog (44 y cant) oedd orau ganddynt. Roedd 33 y cant o'r ymatebwyr o'r farn mai gwefan Hwb oedd y ffurf orau gyda 20 y cant yn nodi mai ar lafar oedd orau ganddynt dderbyn gwybodaeth. Mewn siopau llyfrau oedd orau gan 12 y cant o ymatebwyr dderbyn gwybodaeth, gyda naw y cant yn nodi gwales.com ac wyth y cant yn nodi cyfryngau cymdeithasol.³²

³² Yn seiliedig ar 402 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

Ffigur 9. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Ar ba ffurf sydd orau gennych dderbyn gwybodaeth am adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=402. Gall cyfanswm y canrannau ddod i dros 100% oherwydd bod modd dewis mwy nag un opsiwn.

4.20 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn eithaf cyson ar draws y sectorau er bod ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector addysg bellach (95 y cant) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (84 y cant) o nodi mai trwy e-bost yr oedd orau ganddynt dderbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu yn y sector cynradd ychydig yn llai tebygol na'r cyfartaledd o nodi mai trwy e-bost oedd orau ganddynt dderbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (75 y cant).³³

4.21 Roedd nifer o ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau o'r farn y dylid cael ffynhonnell ganolog o wybodaeth am yr holl adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael, gyda gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau newydd yn cael ei hychwanegu ati yn rheolaidd. Awgrymodd rhai ymarferwyr y dylid cylchredeg gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau

³³ Yn seiliedig ar 119 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 228 uwchradd allan o 234, a 41 o ymatebwyr addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

newydd ar e-bost i bob ymarferwr a oedd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd eraill, fodd bynnag, o'r farn ei fod yn well danfon gwybodaeth i benaethiaid yn y lle cyntaf, a dibynnu arnynt i'w dosbarthu yn briodol o fewn yr ysgol.

4.22 Roedd y cyfweiliadau gydag ymarferwyr yn awgrymu fod yn well ganddynt dderbyn gwybodaeth ar lafar gan fod hyn yn rhoi cyfle iddynt weld a phrofi'r adnodd tra'n ei drafod gydag arbenigwr. Er bod yr ymarferwyr i gyd yn derbyn llawer o wybodaeth drwy ffurfiau ffisegol ac electronig, roedd y mwyafrif wedi derbyn ymweliadau gan swyddogion ysgol Cyngor Llyfrau Cymru neu'r awdurdod lleol hefyd. Roedd llawer ohonynt o'r farn mai ymweliadau o'r fath oedd y ffordd orau o brofi adnodd cyn penderfynu ei brynu ai peidio. Roedd yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi gallu gofyn barn arbenigwr ynglŷn â phoblogrwydd adnoddau, eu holi ynglŷn ag adborth gan ymarferwyr eraill, ac i gael eu hargymhellion ar wahanol fathau o adnoddau a fyddai'n cwrdd â'u hanghenion penodol.

“Mae edrych ar wefan neu e-bost yn iawn ond all di ddim pori drwyddo fel all di pan mae e [yr adnodd] yn dy law. Ti eisiau gwybod... 'ydy e'n gwerthu?' a 'beth mae ysgolion eraill yn dweud amdano?'.”

Ymarferwr, ysgol gynradd

4.23 Cyfeiriodd ymarferwyr addysg bellach at bwysigrwydd fforymau (tebyg i'r fforwm ymarferwyr Trin Gwallt a Harddwch a sefydlwyd gan Colegau Cymru) fel ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Crynodeb o'r dystiolaeth: Derbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

4.24 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ymarferwyr yn derbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy sawl ffynhonnell a ffurf ar hyn o bryd. Awgryma'r dystiolaeth bod ymarferwyr cynradd yn fwy tebygol o dderbyn gwybodaeth gan awdurdodau lleol

neu Gyngor Llyfrau Cymru tra bod ymarferwyr uwchradd yn fwy tebygol o dderbyn gwybodaeth gan CBAC. Ymddengys bod ymarferwyr addysg bellach yn fwy dibynnol ar dderbyn gwybodaeth gan gyd-weithwyr (yn enwedig Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd) a chan ColegauCymru.

- 4.25 Roedd barn gymysg gan ymarferwyr ynglŷn â'r modd y caiff gwybodaeth ar adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu neu ei marchnata, gydag ymatebwyr cynradd yn fwy tebygol na rhai uwchradd neu addysg bellach o fod â barn gadarnhaol. Nododd nifer o ymarferwyr bod y modd y caiff gwybodaeth ei dosbarthu yn anghyson, tra roedd y rheini a oedd wedi derbyn cefnogaeth wyneb-yn-wyneb (e.e. gan Gyngor Llyfrau Cymru neu ymgynghorwyr) yn gwerthfawrogi hynny'n fawr wrth ddewis adnoddau.
- 4.26 Dengys y dystiolaeth bod ymarferwyr yn awyddus i dderbyn gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog trwy nifer o ffynonellau a ffurfiau. Roedd amrywiaeth yn y ffynhonnell fyddai orau gan ymarferwyr cynradd (awdurdodau lleol/Cyngor Llyfrau Cymru), uwchradd (CBAC) ac addysg bellach (Llywodraeth Cymru) dderbyn gwybodaeth ohoni. Nododd nifer o ymarferwyr, fodd bynnag, nad oedd hi'n bwysig o ba ffynhonnell yr oeddynt yn derbyn gwybodaeth cyn belled â'i bod yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.
- 4.27 Er bod ymatebion ymarferwyr i'r arolwg yn awgrymu eu bod yn awyddus i dderbyn gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol, awgryma sylwadau ansoddol ymarferwyr bod lle i symleiddio'r broses o rannu gwybodaeth. Roedd nifer o ymarferwyr o'r farn y byddai un ffynhonnell gynhwysfawr ganolog o wybodaeth ar yr holl adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael yn ddefnyddiol i gyd-fynd â'r ffynonellau eraill yr oeddynt yn eu defnyddio.


5. Y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

5.1 Cyflwynir canfyddiadau'r adolygiad ar y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn seiliedig ar y gwaith maes gydag ymarferwyr a dysgwyr, yn yr adran hon.

Barn ymarferwyr ar y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

5.2 Cymysg oedd barn ymarferwyr ar y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gyda 30 y cant yn nodi nad oedd y dewis 'yn dda nac yn wael'. Roedd 29 y cant o'r farn fod y dewis yn 'wael', gyda 12 y cant yn nodi 'gwael iawn'. Roedd 25 y cant o'r ymatebwyr o'r farn fod y dewis yn 'dda' a thri y cant ei fod yn 'dda iawn'.³⁴

Ffigur 10. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn: 'Beth yw eich barn, yn gyffredinol, ar y dewis o adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=392.

5.3 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau o'r farn nad oedd digon o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn eu pwnc. Er eu bod yn croesawu'r hyn oedd ar gael, roedd y mwyafrif yn

³⁴ Yn seiliedig ar 392 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

cymharu'r hyn oedd ar gael yn y Gymraeg gyda'r dewis o adnoddau cyfrwng Saesneg.

“Dydy'r amrywiaeth o adnoddau ddim ar gael yn y Gymraeg - dim ond y pethau creiddiol. Mae'r pethau yr ydym ni yn eu creu yn y Gymraeg ar gael i'w prynu yn y Saesneg”.

Athro Daearyddiaeth uwchradd (Cyfweliad)

5.4 Roedd nifer o sylwadau ymarferwyr mewn cyfweliadau yn awgrymu bod y dewis o adnoddau wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd, gyda sawl athro yn cyfeirio at welliannau yn safon ac amrywiaeth yr adnoddau. Nodwyd hefyd bod cysylltiadau agosach rhwng cynnwys adnoddau a gofynion y cwricwlwm neu themâu yr ysgol.

“Mae'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg wedi gwella'n aruthrol dros y ddeng mlynedd diwethaf. Mae gwell dewis yn awr i gyd-fynd â'r cwricwlwm ac ar gael ar draws yr ystod oedran erbyn hyn – mae yna bethau i fechgyn ac i ferched sydd yn dda.”

Ymarferwr, ysgol gynradd (Cyfweliad)

5.5 Roedd y data a gasglwyd trwy'r arolwg ymarferwyr yn dangos darlun eithaf cyson ar draws y gwahanol sectorau o ran y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Y prif wahaniaeth i'w nodi oedd bod canran uwch o ymarferwyr o'r sector cynradd o'r farn bod y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg yn 'dda'. Atebodd 41 y cant ohonynt fod dewis 'da' o adnoddau gyda chwech y cant pellach yn ateb 'da iawn'. Mae hyn yn cymharu â 25 y cant o'r ymatebwyr ar gyfartaledd ar draws y sectorau yn nodi bod y dewis yn 'dda', a thri y cant yn nodi ei fod yn 'dda iawn'. Roedd llai o ymarferwyr uwchradd (18 y cant) o'r farn bod dewis 'da' o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (tri y cant arall wedi nodi bod dewis 'da iawn'). Atebodd 19 y cant o ymarferwyr addysg bellach bod y dewis yn 'dda' a dau y cant ei fod yn 'dda iawn'.³⁵ Ategwyd hyn yn y gwaith maes ansoddol, gydag ymarferwyr cynradd yn fwy bodlon na rhai uwchradd ac addysg bellach.

³⁵ Yn seiliedig ar 119 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 230 uwchradd allan o 234, a 42 addysg bellach allan o 45.

- 5.6 Yn ystod y cyfweiliadau a'r grwpiau trafod, ymarferwyr addysg bellach oedd lleiaf bodlon â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael, gyda nifer yn cymharu'r sefyllfa yn y sector addysg bellach gyda'r dewis ehangach o adnoddau i ysgolion.
- 5.7 Roedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf yn fwy bodlon â'r dewis o adnoddau oedd ar gael, gyda 39 y cant yn nodi bod y dewis yn 'dda' neu'n 'dda iawn', o'i gymharu â 28 y cant ar gyfartaledd.³⁶ Ategwyd hyn yn y cyfweiliadau ag ymarferwyr, gydag athrawon Cymraeg Iaith Gyntaf yn fwy bodlon â'r dewis o adnoddau oedd ar gael iddynt. Roedd athrawon pynciau eraill – yn enwedig mewn ysgolion dwyieithog – yn llai bodlon â'r dewis, ac yn fwy tueddol o gymharu'r dewis cyfrwng Cymraeg â'r dewis o adnoddau cyfrwng Saesneg.
- 5.8 Yn ystod y gwaith maes ansoddol, nododd nifer o ymarferwyr fod athrawon a oedd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o dan anfantais, yn eu barn nhw, gan fod cyfran helaeth o'u hamser yn cael ei dreulio'n cyfieithu adnoddau o'r Saesneg. Roedd nifer o ymarferwyr, yn enwedig y rheini mewn ysgolion dwyieithog a cholegau addysg bellach, yn teimlo'n gryf fod angen cydnabyddiaeth o hynny.

“Mae popeth ar gael yn y Saesneg ond rwy'n gorfod treulio oriau yn cyfieithu adnoddau felly mae paratoi am wersi yn cymryd mwy o fy amser i.”

Ymarferwr addysg bellach (Grŵp trafod)

- 5.9 Roedd prinder adnoddau electronig a rhyngweithiol yn y Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg yn bwynt cyson a godwyd gan ymarferwyr. Roedd nifer o'r tiwtoriaid addysg bellach a gymrodd ran mewn cyfweiliadau neu grŵp trafod o'r farn nad oedd digon o adnoddau addysg bellach ar gael ar wefan Hwb.

³⁶ Yn seiliedig ar 38 o ymatebwyr allan o 39 a nododd eu bod yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf fel prif bwnc. Mae angen gofal wrth ddehongli'r ymateb gan nad yw'n seiliedig ar sampl gynrychioliadol (gweler adran 3.31 a 3.32).

- 5.10 Roedd nifer o ymarferwyr o'r farn fod llai o ddewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer addysgu Cyfnod Allweddol 3, yn enwedig o'i gymharu â'r dewis o adnoddau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. Awgrymodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod llai o alw yn eu paneli adnabod anghenion am adnoddau Cyfnod Allweddol 3 gan nad yw'r cwricwlwm wedi ei ragnodi gymaint â chwricwlwm Cyfnod Allweddol 4. Nodwyd bod mwy o reolaeth i ysgolion a dysgwyr dros yr hyn sy'n cael ei addysgu yn ystod Cyfnod Allweddol 3 ac nid yw felly mor hawdd i adnabod yr angen penodol.
- 5.11 Nododd rhai ymarferwyr a oedd yn addysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol nad oedd digon o ddewis o adnoddau addas ar eu cyfer.³⁷ Roedd cael gafael ar gynnwys aeddfed oedd yn cynnwys iaith wedi ei hanelu at grwpiau is eu gallu yn aml yn her yn ôl sawl ymarferwr (gweler 9.30 ymlaen yn Atodiad 1).

Barn dysgwyr ar y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

- 5.12 Nid oedd gan ddysgwyr farn gref ynglŷn â'r dewis cyffredinol o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a oedd ar gael, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn ddibynnol ar ymarferwyr o ran dewis a dethol pa adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Daeth yn amlwg yn ystod trafodaethau nad oedd y mwyafrif o ddysgwyr yn ystyried adnoddau fel 'cyhoeddiadau' neu lyfrau unigol, gan eu bod nhw'n aml yn derbyn tafenni gwaith neu ymarferion wedi'u llungopïo neu eu haddasu gan athrawon.
- 5.13 Adroddodd dysgwyr eu bod yn clywed am deitlau llyfrau darllen cyfrwng Cymraeg newydd trwy eu hathrawon a/neu drwy ymweld â'r llyfrgell yn yr ysgol yn bennaf. Roedd y dysgwyr cynradd wedi clywed am lyfrau newydd trwy weithgareddau 'Diwrnod Y Llyfr', lle'r oedd cyfle i bob dysgwr ddod â llyfr i'r ysgol.

³⁷ Roedd y rhain yn cynnwys un ymarferwr oedd yn addysgu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fel prif swydd a nifer a oedd yn addysgu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol fel rhan o'u swydd.

5.14 Cynigiodd rhai dysgwyr eu sylwadau ar y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael wrth drafod eu profiadau o ddefnyddio adnoddau. Nodwyd gan rai eu bod yn defnyddio gwर्सlyfrau Saesneg mewn gwersi sydd yn cael eu darparu yn y Gymraeg. Roedd teimlad ymysg y dysgwyr hyn ei bod hi'n bwysig bod adnoddau ar gael yn y Gymraeg.

“Dydy hi ddim yn deg i ni os ydyn ni'n gorfod defnyddio adnoddau yn Saesneg gyda themau Saesneg ond wedyn ni'n eistedd arholiadau yn Gymraeg.”

Dysgwr uwchradd, Grŵp trafod

5.15 Roedd rhai dysgwyr uwchradd wedi clywed yn annibynnol am adnoddau rhyngweithiol (e.e. BBC Bitesize) a chyfeiriodd nifer fach at ymwybyddiaeth o wefan GCaD (Hwb bellach). Ategodd nifer o ddysgwyr farn ymarferwyr fod angen mwy o wefannau addysgol rhyngweithiol cyfrwng Cymraeg yn cynnwys fideos, cwisiau ac animeiddiadau.

Crynodeb o'r dystiolaeth: Y dewis o adnoddau

5.16 Dengys y dystiolaeth o'r adolygiad fod gan ymarferwyr farn gymysg ynglŷn â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael am yr adnoddau hyn. Roedd 28 y cant o ymarferwyr o'r farn bod dewis 'da' neu 'dda iawn' o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael o'i gymharu â 41 y cant a nododd fod y dewis yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.³⁸ Ategwyd y dystiolaeth o'r arolwg yn ystod y cyfweiliadau a grwpiau ffocws ag ymarferwyr, gyda'r mwyafrif yn nodi nad oedd digon o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael o fewn eu pwnc.

5.17 Awgryma canlyniadau'r holiadur i ymarferwyr bod canran uwch o ymarferwyr o'r sector cynradd o'r farn bod y dewis o adnoddau cyfrwng

³⁸ Yn seiliedig ar 392 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

Cymraeg a dwyieithog yn 'dda'. Roedd 47 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y dewis o adnoddau yn 'dda' neu 'dda iawn' o'i gymharu â 28 y cant ar gyfartaledd. Roedd 21 y cant o ymatebwyr yn y sector uwchradd a 21 y cant o ymarferwyr addysg bellach o'r farn bod y dewis o adnoddau yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.³⁹ Atgyfnerthwyd y canfyddiadau hyn yn ystod y cyfweiliadau, gydag ymarferwyr cynradd i'w gweld yn fwy bodlon o'i gymharu ag ymarferwyr uwchradd ac addysg bellach. Ymarferwyr addysg bellach oedd lleiaf bodlon â'r dewis o adnoddau yn y cyfweiliadau a'r grwpiau trafod, gyda nifer yn cymharu'r sefyllfa mewn addysg bellach gyda'r dewis ehangach o adnoddau i ysgolion.

5.18 Ar sail y sampl ymarferwyr a gwblhaodd yr holiadur, ymddengys bod barn ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf yn fwy cadarnhaol nag athrawon pynciau eraill ynglŷn â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg.⁴⁰ Roedd athrawon pynciau eraill – yn enwedig mewn ysgolion dwyieithog – yn llai bodlon â'r dewis, ac yn fwy tueddol o gymharu'r dewis cyfrwng Cymraeg â'r dewis cyfrwng Saesneg. Awgryma'r dystiolaeth o'r cyfweiliadau fod hyn o bosibl yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw hi mor hawdd i athrawon Cymraeg Iaith Gyntaf gymharu'r dewis o adnoddau yn uniongyrchol â'r hyn sydd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg.

5.19 Roedd nifer o sylwadau ymarferwyr mewn cyfweiliadau a grwpiau ffocws yn awgrymu bod y dewis o adnoddau wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diweddar gyda sawl athro yn cyfeirio at welliannau yn safon ac amrywiaeth yr adnoddau.

5.20 Er nad oedd barn gref gan ddysgwyr ar y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg, roedd rhai o'r farn nad oedd digon o ddewis o'i gymharu â'r Saesneg. Nododd nifer o ddysgwyr nad oedd digon o adnoddau rhyngweithiol ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg.

³⁹ Yn seiliedig ar 119 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 230 uwchradd allan o 234, a 42 addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

⁴⁰ Yn seiliedig ar 37 o ymatebwyr allan o 39 a nododd eu bod yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf fel prif bwnc. Mae angen gofal wrth ddehongli'r ymateb gan nad yw'n seiliedig ar sampl gynrychioliadol (gweler adran 3.31 a 3.32).

6. Defnydd ac ansawdd adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

- 6.1 Yn yr adran hon, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad mewn perthynas â defnydd ymarferwyr a dysgwyr o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal â'u hanghenion pellach.

Barn ymarferwyr ar ddefnydd ac ansawdd adnoddau

- 6.2 O ran ansawdd yr adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio, roedd barn ymarferwyr ar y cyfan yn gadarnhaol. Roedd nifer yn canmol yr adnoddau a oedd ar gael iddynt, gan gynnwys sawl un o'r adnoddau a gomisiynwyd gan y Gangen Comisiynu Adnoddau. Nododd nifer o ymarferwyr enghreiffiau o adnoddau a oedd wedi profi'n effeithiol wrth ymgysylltu â dysgwyr.
- 6.3 Holwyd ymarferwyr ynglŷn â'r ffactorau pwysicaf wrth ddewis adnoddau. Addasrwydd i'r cwricwlwm, i allu'r dysgwyr ac i oedran y dysgwyr oedd y ffactorau pwysicaf yn ôl yr ymatebwyr gyda bron at gant y cant yn nodi bod y rhain yn ffactorau 'eithaf pwysig' a dros 80 y cant yn nodi bob un fel ystyriaeth 'bwysig iawn'. Roedd cost a dyluniad/fformat adnodd hefyd yn ffactor 'pwysig iawn' neu 'eithaf pwysig' i dros 90 y cant o ymatebwyr. Roedd 89 y cant o'r farn bod argaeledd adnoddau electronig yn 'bwysig iawn' neu 'eithaf pwysig'. Roedd llai o'r ymatebwyr o'r farn bod y canlynol yn ffactorau 'pwysig iawn' neu 'eithaf pwysig' wrth ddewis adnoddau: adnodd gwreiddiol (70 y cant), addasiadau (55 y cant); y gallu i ddefnyddio'r adnodd ar draws sawl pwnc (64 y cant).

“Mae adnodd da yn edrych yn fodern, yn gyfoes, lliwgar gyda diagramau ac yn dilyn y maes llafur hefyd.”

Athro Addysg Grefyddol Uwchradd (cyfweliad)

Tabl 10. Ymateb ymarferwyr i'r cwestiwn 'Pa mor bwysig ydy'r ffactorau canlynol wrth ddewis adnoddau ar gyfer eich dosbarth?'

Ffactorau	Pwysig iawn	Eithaf pwysig	Ddim yn bwysig	Amherth -nasol	Nifer yr ymatebwyr
Cost	55%	40%	3%	1%	382
Addasrwydd i'r ystod oedran	89%	9%	2%	0%	388
Addasrwydd i allu'r dysgwyr	87%	12%	0%	0%	382
Addasrwydd i'r cwricwlwm	82%	18%	1%	0%	390
Dyluniad a fformat	41%	52%	7%	0%	384
Adnodd gwreiddiol	20%	49%	28%	3%	378
Addasiad o adnodd sydd yn gyfarwydd	14%	41%	39%	6%	374
Deunyddiau electronig	36%	52%	11%	0%	382
Y gallu i ddefnyddio'r adnodd ar draws sawl pwnc	26%	38%	29%	7%	377

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=393

6.4 Diwyg adnodd, ei berthnasedd i'r cwricwlwm ac addasrwydd i allu a lefel y dysgwyr oedd y ffactorau mwyaf cyffredin a nodwyd fel rhinweddau adnodd da yn ystod y cyfweiliadau a'r grwpiau trafod ag ymarferwyr. Roedd bron pob un o'r ymarferwyr a gafodd eu cyfweld yn ystyried addasrwydd yr adnodd i'r cwricwlwm yn rhywbeth hanfodol, a phwysleisiwyd gan y mwyafrif bod amrywiaeth o weithgareddau a chynnwys yn bwysig. Nododd sawl ymarferwr bod angen adnoddau a oedd yn addas i'w llungopïo er mwyn creu gweithgareddau i ddysgwyr.

“Be’ ‘dw i am weld yw cymysgedd o ddeunyddiau sy’n sbarduno trafodaeth a gweithgareddau sy’n cyd-fynd â hynny, er fydda i yn aml yn creu gweithgareddau fy hun.”

Ymarferwr Cymraeg Iaith Gyntaf uwchradd (cyfweiliad)

6.5 Roedd ymatebion ymarferwyr cynradd, uwchradd ac addysg bellach yn eithaf cyson o ran y ffactorau pwysicaf wrth ddewis adnoddau. Roedd y gallu i ddefnyddio adnodd ar draws sawl pwnc yn bwysicach i ymatebwyr a oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector cynradd; nododd 93 y cant ei fod yn 'bwysig iawn' neu'n 'bwysig' o'i gymharu â 64 y cant ar gyfartaledd.⁴¹ Ar y llaw arall, roedd llai na'r cyfartaledd yn y sector uwchradd (47 y cant) o'r farn bod y gallu i ddefnyddio adnodd ar draws sawl pwnc yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn'. Roedd 53 y cant o'r ymatebwyr oedd yn addysgu'n bennaf yn y sector cynradd o'r farn bod dyluniad a fformat adnodd yn 'bwysig iawn' o'i gymharu â 41 y cant ar gyfartaledd. Roedd 48 y cant o'r ymatebwyr addysg bellach o'r farn bod deunyddiau electronig yn ystyriaeth 'bwysig iawn', o'i gymharu â 36 y cant ar gyfartaledd.

6.6 Nododd nifer o athrawon fod adnoddau a oedd yn cynnwys amrywiaeth o dasgau wedi eu hanelu at ddysgwyr o lefelau gallu gwahanol yn ddefnyddiol. Roedd sawl ymarferwr o'r farn bod nifer o adnoddau a oedd ond yn cynnig cynnwys addas at ddysgwyr 'nodweddiadol', ac oherwydd hynny nid oeddynt yn ddigon heriol i rai ac yn rhy heriol i eraill.

“Dydy'r adnoddau sydd ar gael ddim yn ymestyn y gorau a ddim yn ddigon syml i'r lleiaf galluog. Mae angen mwy o wahaniaethu o fewn y llyfrau.”

Athro Addysg Grefyddol uwchradd (cyfweliad)

6.7 Roedd nifer o'r ymarferwyr yn hoff o weld canllawiau adolygu ar gael yn y Gymraeg ond roedd rhai yn anghytuno gyda hynny, gan nodi fod adnoddau o'r fath yn gallu colli eu defnyddioldeb ynghynt nag adnoddau mwy cyffredinol.

⁴¹ Yn seiliedig ar 121 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 230 o ymatebwyr uwchradd allan o 234, a 42 o ymatebwyr addysg bellach allan o 45 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

- 6.8 Pwysleisiwyd pwysigrwydd adnoddau rhyngweithiol ac aml-blattform gan bron bob un o'r ymarferwyr cynradd, uwchradd ac addysg bellach mewn cyfweiliadau. Roedd ymarferwyr yn ystyried adnoddau rhyngweithiol yn fanteisiol o ran ymgysylltiad dysgwyr, cynnig amrywiaeth o ddulliau dysgu ac annog gweithio'n annibynnol tra'n cyflwyno tasgau mewn dull yr oedd disgyblion yn ei fwynhau.

“Nid ydym bellach yn ddibynnol ar lyfrau gosod yn unig ar gyfer addysgu. Rydym yn defnyddio fideos, gwefannau rhyngweithiol, templedi gemau, cardiau fflach, cwisiau, podcasts – ond ychydig iawn o'r rhain sydd ar gael yn y Gymraeg.”

Athro Cymraeg Ail Iaith uwchradd (cyfweiliad)

- 6.9 Roedd nifer o ymarferwyr ar draws y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach o'r farn bod angen rhagor o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar ffurf electronig y gellid eu haddasu. Nodwyd bod y gallu i addasu termau mewn adnoddau electronig wrth iddynt newid yn fanteisiol.
- 6.10 Roedd nifer o ymarferwyr o'r farn y byddai mwy o ddeunyddiau electronig i gyd-fynd ag adnoddau print yn ddefnyddiol (e.e. taflenni gwaith electronig, cyflwyniadau PowerPoint, clipiau fideo). Nododd nifer o athrawon cynradd ac uwchradd ar draws yr holl bynciau o dan sylw fod prinder clipiau fideo cyfrwng Cymraeg i sbarduno trafodaeth, egluro cysyniadau neu i gyd-fynd ag agweddau o'r cwricwlwm.

Barn dysgwyr ar ddefnydd ac ansawdd adnoddau

- 6.11 Ar y cyfan roedd y bobl ifanc a gymrodd ran yn y trafodaethau yn fodlon gydag ansawdd yr adnoddau cyfrwng Cymraeg yr oeddynt yn eu defnyddio. Nododd nifer o ddysgwyr enghreifftiau o adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio, gan fynegi barn arnynt.
- 6.12 Roedd mwyafrif y dysgwyr iau (cynradd a blwyddyn 7 ac 8 uwchradd) a gymrodd ran mewn grwpiau trafod yn hoff o werslyfrau lliwgar yn

cynnwys lluniau, animeiddiadau a chynnwys oedd yn atyniadol. Nododd nifer o ddysgwyr eu bod yn gweld taflenni gwaith wedi eu darparu iddynt yn 'eithaf plaen' eu golwg neu'n 'ddu a gwyn' yn aml.

- 6.13 O ran rhinweddau'r adnoddau oedd yn apelio at ddysgwyr, roedd atyniad straeon neu gymeriadau doniol yn thema ddaeth yn amlwg wrth drafod llyfrau ffeithiol a ffuglen. Roedd cartwnau neu luniau doniol mewn llyfrau yn apelio atynt.
- 6.14 Roedd y dysgwyr cynradd a gymrodd ran mewn grŵp trafod yn hoffi llyfrau yn seiliedig ar ffilmiau a chymeriadau adnabyddus (e.e. Harry Potter, Henri Helynt). Roedd y dysgwyr (Blwyddyn 5) o'r farn bod *Tudur Budr*⁴² yn gyfres dda iawn ar gyfer dysgwyr blwyddyn 3 a 4. Roedd rhai o'r disgyblon cynradd yn hoffi gwneud tasgau a chwisiau yng nghanol llyfrau (e.e. ar ôl darllen pennod) ond roedd yn well gan eraill ddarllen yn unig heb gwblhau tasg. Roedd rhai dysgwyr cynradd o'r farn fod ffont mawr yn well yn y llyfrau. Roedd rhai yn hoffi gweld lluniau mewn llyfrau darllen ond doedd eraill ddim yn rhannu'r farn, gan nodi bod yn well ganddynt ddychmygu'r hyn oedd yn digwydd.
- 6.15 Roedd dysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 a gymrodd ran mewn grwpiau ffocws yn rhoi llawer o bwyslais ar elfennau gweledol adnoddau, gan nodi bod diwyg 'modern' a 'lليwgar' yn bwysig iddynt. Nododd rhai bod rhai taflenni a llyfrau yr oeddynt yn eu defnyddio yn gallu bod yn hen ffasiwn. Nododd rhai dysgwyr sylwadau negyddol ynglŷn â golwg 'diflas' taflenni cyfrwng Cymraeg wedi eu paratoi gan eu hathrawon o'u cymharu â'r llyfrau Saesneg.
- 6.16 Roedd mwyafrif y dysgwyr ym mlynnyddoedd 7, 8 a 9 yn defnyddio taflenni ac adnoddau wedi eu paratoi gan eu hathrawon ac nid oeddynt yn tueddu i enwi adnoddau penodol. Roedd rhai yn enwi llyfrau darllen yr oeddynt yn eu mwynhau. Roedd nifer o ddysgwyr blynnyddoedd 7, 8 a

⁴² Nid yw hwn yn adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

9 yn hoff o ddarllen bywgraffiadau enwogion byd-eang ac awgrymodd rhai y dylai llyfrau o'r fath fod ar gael yn y Gymraeg.

- 6.17 Roedd dysgwyr ym mlynnyddoedd 12 ac 13 yn tueddu i roi mwy o bwyslais ar y cyswllt rhwng cynnwys adnoddau a'u cyrsiau, ynghyd â pha mor ddefnyddiol y gwelant yr adnodd wrth eu helpu i lwyddo yn eu cwrs. Cynigiodd rhai o'r dysgwyr blwyddyn 12 ac 13 sylwadau manwl ar gynnwys a strwythur adnoddau penodol o fewn eu pynciau.

“Mae'r llyfr Seicoleg AS [CBAC] yn dda – strwythur da ac yn hawdd ei ddeall.”

Dysgwr Blwyddyn 12 (Grŵp trafod)

- 6.18 Ychydig iawn o wefannau cyfrwng Cymraeg oedd y dysgwyr yn eu defnyddio - S4/Clic a rhai adnoddau ar wefan y BBC oedd yr unig rai a enwyd ganddynt. Roedd un grŵp o ddysgwyr blwyddyn 7 ac 8 ac un grŵp blwyddyn 9 yn mwynhau defnyddio gwefan mathemateg rhyngweithiol trwy gyfrwng y Saesneg. Roedd rhai hefyd yn hoffi'r cyfle i gwblhau tasgau gwaith cartref ar wefan Moodle eu hysgol. Roedd llawer o'r dysgwyr yn hoffi defnyddio technoleg e-ddarllen (e.e. Kindle neu iPad).

- 6.19 Roedd yn well gan y dysgwyr cynradd gwblhau cwisiau a thasgau drwy ddulliau rhyngweithiol nag ar bapur (e.e. profion sillafu neu fathemateg ar yr iPad). Roedd nifer o ddysgwyr o'r farn fod clipiau fideo a DVDs ffeithiol yn ddefnyddiol iawn fel ffordd o ddysgu. Roeddynt o'r farn nad oedd digon o gyfle iddynt ddefnyddio'r dulliau hyn, ac roedd cyfleoedd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn brinnach.

“Mae'r fideos ffeithiol fel rhaglenni dogfen hanes a fideos platiau tectonig yn dda iawn.”

Dysgwr Blwyddyn 9 (grŵp trafod)

- 6.20 Cafwyd trafodaethau gyda dysgwyr Cymraeg Ail Iaith ym mlwyddyn 7, 8 a 9 mewn dwy ysgol uwchradd. Wrth drafod yr adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio mewn gwersi leithoedd Tramor Modern (trwy gyfrwng y

Saesneg), roedd sawl un o'r dysgwyr o'r farn bod yr adnoddau hynny (e.e. gwर्सlyfrau, taflenni geirfa, DVDs) yn well na'r rhai oedd ar gael yn y gwersi Cymraeg Ail Iaith.

“Mae fideos [leithoedd Tramor Modern] yn dda er mwyn cymharu pa mor dda y'n ni i gymharu â siaradwr rhugl.”

Dysgwyr Blwyddyn 9 Cymraeg Ail Iaith, Grŵp trafod

6.21 Roedd trafodaethau gyda'r dysgwyr yn awgrymu bod tipyn o wahaniaeth barn o ran addasrwydd lefel ieithyddol adnoddau. Roedd rhai yn gweld y llyfrau neu'r gwर्सlyfrau yr oeddynt yn eu defnyddio yn rhy syml tra bod eraill yn gweld yr iaith yn gymhleth.

“Mae'r geiriau – yr iaith – yn galed mewn rhai. Mae'r llyfr ni'n defnyddio mewn Bioleg yn rhy anodd i ddilyn weithiau. Mae'r termau yn gymhleth.”


Dysgwr Blwyddyn 12, Grŵp trafod

Galw ymarferwyr a dysgwyr am adnoddau pellach

6.22 Gofynnwyd i ymarferwyr nodi a oedd yna adnoddau nad oedd ar gael ar hyn o bryd y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd 59 y cant o'r ymarferwyr o'r farn bod adnoddau penodol nad oedd ar gael y byddent yn hoffi eu gweld trwy gyfrwng y Gymraeg.⁴³

⁴³ Yn seiliedig ar 274 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth pob ymatebwr ddewis ateb y cwestiwn hwn).

Ffigur 11. Ymateb ymatebwyr i'r cwestiwn: 'A oes adnoddau penodol sydd ddim ar gael ar hyn o bryd y byddech yn hoffi eu gweld yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg?'



Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=274

6.23 Yn y cyfweiliadau a'r arolwg, nododd nifer o ymarferwyr y mathau o adnoddau y gellid ystyried eu datblygu yn eu pynciau. Yn ogystal nododd nifer enwau adnoddau Saesneg y dylid eu hystyried addasu i'r Gymraeg. Awgryma hyn bod gan nifer o ymarferwyr awydd i weld addasiadau yn cael eu cynhyrchu o hyd yn ogystal ag adnoddau gwreiddiol, yn unol â pholisi presennol y Gangen Gomisiynu Adnoddau.

6.24 Er bod nifer o ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau wedi enwi adnoddau cyfrwng Saesneg y dylid ystyried eu haddasu neu eu datblygu yn y Gymraeg, roedd nifer o ymarferwyr o'r farn bod addasiadau o adnoddau Saesneg yn rhy hwyr yn eu cyrraedd er mwyn iddynt fod yn ddefnyddiol.

“Mae angen sicrhau bod y cyhoeddiad [cyfrwng] Cymraeg yn cael ei ryddhau yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Llawer rhy aml mae'r fersiwn Gymraeg yn dod yn ddiweddarach.”

Athro Gwyddoniaeth uwchradd (Cyfweiliad)

6.25 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau o'r farn nad oedd digon o adnoddau ar gael ar gyfer cwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol o fewn eu pwnc. Nododd sawl ymarferwr bod angen rhagor o adnoddau o fewn eu pwnc i gyd-fynd â'r fframwaith hwn. Roedd nifer o'r farn bod prinder adnoddau Cyfnod Allweddol 3 ar gael o'i gymharu â Chyfnod Allweddol 4. Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o adnoddau perthnasol ar gyfer dysgwyr wedi eu comisiynu ers i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gael ei gyhoeddi. Mae rhestr o'r adnoddau sydd wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn. Yn ogystal ceir adnoddau addysgu ar Dysgu Cymru (dysgu.cymru.gov.uk).

6.26 Roedd nifer o ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau yn pwysleisio'r angen am gynnwys a oedd yn addas i ddysgwyr o lefelau gallu gwahanol o fewn adnoddau. Nododd nifer o ymarferwyr (gan gynnwys rhai mewn ysgolion lle'r oedd cyfran helaeth o'r dysgwyr o aelwydydd Cymraeg Iaith Gyntaf) fod rhai adnoddau yn rhy gymhleth o ystyried gallu ieithyddol dysgwyr.

“Mae tipyn o naid rhwng pethau sydd yn addas i [ddysgwyr] 7-9 oed ac adnoddau uwchradd. Os ydych eisiau ymestyn rhai o'r plant mwyaf galluog 9-11 oed mae'n anodd dod o hyd i bethau addas ar gyfer y darllenwyr da. Mae'n anodd cael llyfrau gwybodaeth addas i'r oed yma'n arbennig.”

Ymarferwr ysgol gynradd (cyfweiliad)

6.27 O ran anghenion pellach dysgwyr, nododd rhai dysgwyr Blynyddoedd 12 a 13 feysydd neu bynciau lle byddai'n fanteisiol cael rhagor o adnoddau cyfrwng Cymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys adnoddau ar gyfer Safon Uwch Ffrangeg, adnoddau i gyd-fynd â llyfrau newydd Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf, a chanllawiau ar sut i ateb cwestiynau traethawd Safon Uwch Daearyddiaeth. Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o adnoddau perthnasol i'r uchod wedi eu comisiynu yn ddiweddar. Mae rhestr o'r adnoddau sydd wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

6.28 Ategodd rhai dysgwyr ym mlynnyddoedd 12 ac 13 sylwadau athrawon ynglŷn ag argaeledd canllawiau adolygu cyfrwng Cymraeg ar yr un pryd â'r rhai Saesneg. Nododd y dysgwyr hyn rwystredigaeth bod fersiynau cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd yn hwyrach yn y flwyddyn ar ôl i'w hathrawon gyfieithu'r nodiadau iddynt. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru ei bod yn ofynnol i gyhoeddwyr sydd yn creu adnoddau yn y ddwy iaith trwy'r rhaglen gomisiynu adnoddau i gyhoeddi'r fersiwn cyfrwng Cymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd. Nodwyd bod cytundebau'n bodoli rhwng cyhoeddwyr masnachol a byrddau arholi ar gyfer cyhoeddi adnoddau yn Saesneg yn unig. Mae'r rhain y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Serch hynny, nododd Llywodraeth Cymru bod eu cytundeb grant gyda CBAC yn helpu i leihau'r amser rhwng cynhyrchu fersiynau Saesneg a Chymraeg o rai adnoddau sy'n berthnasol i arholiadau CBAC.

Hyfforddiant ar gyfer defnyddio adnoddau

6.29 Gofynnwyd i ymarferwyr a oeddynt wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio unrhyw adnodd(au). Roedd 27 y cant o'r ymatebwyr wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio adnoddau gyda 67 y cant heb dderbyn hyfforddiant o'r fath.⁴⁴ O'r 82 ymarferwr a nododd eu bod wedi derbyn hyfforddiant, nododd 45 y cant bod yr hyfforddiant hwnnw yn 'dda' a 43 y cant ei fod yn 'dda iawn'.⁴⁵

Crynodeb o'r dystiolaeth: defnydd ac ansawdd adnoddau

6.30 Ar y cyfan, roedd barn ymarferwyr a dysgwyr ar yr adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio, gan gynnwys nifer o'r adnoddau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gadarnhaol. Amlinellodd ymarferwyr a dysgwyr

⁴⁴ Atebodd chwech y cant 'ddim yn siwr'. Yn seiliedig ar 301 o ymatebion allan o 448 (ni wnaeth bob ymatebydd gwblhau'r cwestiwn hwn).

⁴⁵ Mae angen gofal wrth ddehongli'r ymateb gan bod nifer yr ymatebwyr yn fach ac nad yw'n seiliedig ar sampl gynrychioliadol (gweler adran 3.31 a 3.32).

rinweddau adnoddau oedd yn dda neu'n effeithiol ac roeddynt yn gallu cynnig enghreifftiau cyfrwng Cymraeg oedd yn diwallu'u hanghenion.

6.31 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr o'r farn bod adnoddau eraill nad oedd ar gael ar hyn o bryd y byddent yn hoffi eu gweld trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigiodd ymarferwyr a dysgwyr sylwadau ar yr hyn a welant fel bylchau neu anghenion pellach o ran adnoddau cyfrwng Cymraeg. Y sylwadau mwyaf cyffredin a nodwyd ganddynt oedd:

- yr angen am ragor o adnoddau electronig a rhyngweithiol cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys clipiau fideo cyfrwng Cymraeg;
- prinder adnoddau Cyfnod Allweddol 3, o'i gymharu â Chyfnod Allweddol 4;
- yr angen am ragor o adnoddau i gyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.⁴⁶

6.32 Roedd cael amrywiaeth o dasgau wedi eu hanelu at ddysgwyr o lefelau gallu gwahanol yn bwysig yn ôl nifer o'r ymarferwyr a gymrodd ran yn y gwaith maes. Nododd rhai ymarferwyr bod angen rhagor o amrywiaeth o ran lefelau, tasgau a gweithgareddau mewn rhai gwर्सlyfrau a oedd ond yn cynnig cynnwys addas at ddysgwyr 'nodweddiadol'.

6.33 Nododd mwyafrif yr ymarferwyr fod deunyddiau allweddol cyfrwng Cymraeg yn aml yn eu cyrraedd yn hwyrach nag adnoddau cyfrwng Saesneg. Roedd hyn yn destun rhwystredigaeth i ymarferwyr ac i rai o ddysgwyr Blynyddoedd 12 ac 13.

⁴⁶ Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o adnoddau perthnasol wedi eu comisiynu ers i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol gael ei gyhoeddi. Mae rhestr o'r adnoddau hyn sydd wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

7. Barn cyhoeddwr

- 7.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan 14 o gwmnïau a sefydliadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i greu adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Cwrdd â'r galw

- 7.2 Dengys y dystiolaeth bod chwech o'r cyhoeddwr a gyfrannodd i'r adolygiad o'r farn bod y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi gwella yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nododd sawl un o'r cyhoeddwr a gwblhaodd yr holiadur bod yr ystod o adnoddau a gomisiynir 'yn ymateb i anghenion ysgolion', yn ôl eu profiadau nhw.

“Mae'r ystod o adnoddau sydd bellach ar gael yn y Gymraeg yn hynod o gyfoethog, gan gynnwys darpariaeth newydd mewn meysydd newydd i'r Gymraeg fel y Gyfraith, Seicoleg a Llywodraeth a Gwleidyddiaeth.”

Cyhoeddwr (Holiadur)

- 7.3 Roedd tri allan o'r 14 cyhoeddwr ychydig yn llai cadarnhaol wrth fynegi barn, gan nodi bod y ddarpariaeth yn cwrdd â'r galw i raddau, ond bod yna le i wella.⁴⁷ Er bod y dewis sydd ar gael i ysgolion wedi ehangu, nododd rhai bod yna alw heb ei ddiwallu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru.
- 7.4 Cyfeiriodd bron i hanner y cyhoeddwr at un mater yn benodol sydd yn rhwystro ymdrechion cyhoeddwr (a Llywodraeth Cymru) i gwrdd â galw ysgolion, sef diffyg ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr o'r ystod eang o adnoddau a gynhrychir (gweler sylwadau pellach ar farchnata a chodi ymwybyddiaeth isod). Roedd rhai o'r sylwadau gan ymarferwyr yn awgrymu bod sail i'r sylwadau hyn mewn rhai ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

⁴⁷ Ni fynegwyd barn gadarnhaol na negyddol gan bump o'r cyhoeddwr.

7.5 Awgrymodd cyhoeddwr bod angen rhagor o adnoddau cyfrwng Cymraeg ar draws ystod o feysydd, gyda rhai yn nodi ym mha gyfnodau allweddol y gwelir y bylchau cyffredin. Ceir crynodeb o'r pynciau a'r meysydd a enwyd gan gyhoeddwr isod. Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o adnoddau perthnasol i'r meysydd hyn wedi eu comisiynu yn ddiweddar. Mae rhestr o'r adnoddau sydd wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

Tabl 11: Y pynciau/meysydd a nodwyd gan gyhoeddwr mewn ymateb i'r cwestiwn: 'A oes adnoddau cyfrwng Cymraeg penodol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd yr ydych chi wedi gweld galw amdanynt?'

Pwnc/maes	Nodiadau/manylion pellach
Addysg bersonol a chymdeithasol	Bylchau cyffredinol wedi'u nodi gan un cyhoeddwr
Addysg gorfforol	Cyfnod Allweddol 4
Adnoddau ar gyfer dysgwyr gydag anableddau	Ar draws ystod o bynciau
Astudiaethau busnes	Bylchau cyffredinol wedi'u nodi gan un cyhoeddwr
Adnoddau Cyfnod Sylfaen	Adnoddau sydd yn helpu athrawon i gyrraedd canlyniadau dysgu trwy chwarae a dulliau addysgu anffurfiol
Adnoddau i gryfhau llythrennedd a rhifedd	Wedi'i grybwyll gan sawl cyhoeddwr. Awgrymiadau yn cynnwys llyfrau i annog darllen ymysg bechgyn 10-14 oed.
Anghenion dysgu ychwanegol	Bylchau ar draws yr holl gyfnodau allweddol
Gwyddoniaeth	Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2
Meysydd galwedigaethol a byd gwaith	Bylchau cyffredinol wedi'u nodi gan un cyhoeddwr

Ffynhonnell: Arolwg cyhoeddwr

7.6 Roedd rhai cyhoeddwr o'r farn bod y broses o greu adnoddau cyfrwng Cymraeg yn un 'adweithiol' gyda chyhoeddwr, fel arfer, yn ymateb i angen 'ar ôl gweld bwllch, yn hytrach na chynllunio i lunio darpariaeth bwrpasol'. Gwnaethpwyd y pwynt gan un cyhoeddwr bod hyn yn arbennig o wir wrth ystyried addasiadau i'r Gymraeg.

Galw am adnoddau rhyngweithiol

7.7 Nodwyd bod yna alw cynyddol gan ymarferwyr am adnoddau rhyngweithiol, a bod hyn wedi golygu newid ffocws i sawl un o'r cyhoeddwr a'r angen i ddatblygu sgiliau newydd o fewn eu busnesau.

“Yn naturiol, mae mwy o alw am ddeunyddiau digidol a deunydd aml-gyfrwng sy’n mynd â ni tu hwnt i faes print confensiynol. Yn sicr, ‘apps’ yw’r adnoddau sydd eisiau eu datblygu’n bennaf ar hyn o bryd gan nad oes cymaint o ddeunydd cyfrwng Cymraeg felly ar gael.”

Cyhoeddwr (Holiadur)

- 7.8 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at y buddion o foderneiddio adnoddau a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu gan ddefnyddio technolegau y maent yn gyfforddus a chyfarwydd â hwy. Nododd un cyhoeddwr bod dysgu trwy ‘apps’ yn medru sbarduno dysgwyr uwchradd. Awgrymodd cyhoeddwr bod ysgolion erbyn hyn yn deall manteision defnyddio adnoddau electronig fel rhan o ddulliau addysgu arloesol. Roedd y sylw isod yn nodweddiadol o’r sylwadau gan gyhoeddwr:

“Credwn fod lle mewn manylebau i’r dyfodol fod yn arloesol a chreu testun [cyfrwng] Cymraeg ar ffurf apps mewn llythrennedd, rhifedd a gemau rhyngweithiol, addysgiadol.”

Cyhoeddwr (Holiadur)⁴⁸

- 7.9 Ym mhrofiad rhai o’r cyhoeddwr mae adnoddau digidol yn medru gwella cynhwysiant yn y dosbarth, trwy apelio at ddysgwyr ar bob lefel gallu. Mae adnoddau o’r fath yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu dulliau addysgu newydd a diddorol, gan gyfoethogi profiadau’r dysgwyr, yn ôl rhai. Serch hynny, mae rhai o’r farn bod yna her i gomisiynwyr adnoddau ac i gyhoeddwr er mwyn sicrhau bod:

“Darpariaeth gytbwys ar gael [rhwng] adnoddau print ac adnoddau digidol. Mae perygl mewn creu adnoddau digidol yn unig gan fod llwyfannau gwahanol yn golygu bod rhaid creu deunydd digidol sy’n addas i wahanol lwyfannau.”

Cyhoeddwr (Holiadur)

- 7.10 Cyfeiriodd sawl un o’r cyhoeddwr at y ffaith bod galw o hyd am werslyfrau mewn print gan ysgolion, ac roeddynt yn rhagweld y byddai’r galw hwnnw yn parhau am flynyddoedd i ddod.

⁴⁸ Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o apps ar fin cael eu comisiynu. Mae rhestr o’r adnoddau sydd wedi’u comisiynu ond heb eu cyhoeddi wedi’i chynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.

Newidiadau i natur yr adnoddau a gomisiynir

7.11 Yn dilyn ymlaen o'r pwyntiau uchod ynghylch y galw am adnoddau rhyngweithiol, adroddodd cyhoeddwr bod newid wedi bod yn natur yr adnoddau a gomisiynir yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ymddengys bod tuedd gyffredinol ymysg cyhoeddwr i greu mwy o adnoddau ar ffurf electronig, gan ymateb i'r cynnydd mewn darpariaeth addysgol amlgyfrwng a'r galw am ddulliau addysgu mwy hyblyg. Mae datblygiad adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, felly, wedi dilyn y patrwm cyffredinol yn y cyfeiriad hwn.

“There has been a clear shift to an increased use of ICT with children. This shift has been incorporated into the nature of the support materials developed, with the inclusion of podcasting, video production, the use of children's own images. Direct pupil access has become more prevalent, rather than teacher-mediated materials.”

Cyhoeddwr (Holiadur)

7.12 Un pwynt a nodwyd oedd bod y datblygiad tuag at gomisiynu cyfran uwch o adnoddau digidol neu rhyngweithiol yn 'mynd â'r gwaith y tu allan i arbenigedd gweisg'. Roedd rhai cyhoeddwr o'r farn ei bod yn bwysig bod cyfleoedd i ddatblygu adnoddau o'r fath yn cael eu cyflwyno i sefydliadau gyda'r arbenigeddau priodol. Nododd Llywodraeth Cymru eu bod yn annog gweisg i gyd-weithio gyda chwmnïau ag arbenigedd perthnasol yn y manylebau a lunir fel rhan o'r broses gytundebu.

7.13 Nododd pedwar allan o'r 14 cyhoeddwr eu bod wedi gweld galw cynyddol yn ddiweddar am adnoddau llythrennedd a rhifedd ymysg ysgolion. Cyfeiriodd un cyhoeddwr at ffactor arall sydd wedi dylanwadu ar y math o adnoddau a gynhychir:

“Rydym wedi rhoi sylw i rôl rhieni yn y broses addysgol. Mae hyn yn cynnwys darparu llyfrau y gall dysgwyr eu defnyddio y tu hwnt i furiau'r ysgol.”

Cyhoeddwr (Holiadur)

Casglu adborth gan ysgolion ar yr adnoddau

7.14 Adroddodd 12 o'r 14 cyhoeddwr eu bod yn casglu adborth gan athrawon ynglŷn â chynnwys a defnydd yr adnoddau a gynhrychir. Nodwyd bod hyn yn digwydd ar lefel ffurfiol ac anffurfiol, yn cynnwys:

- cyswllt cyson gydag athrawon sy'n rhan o gyfarfodydd monitro ansawdd yn ystod cyfnod datblygu'r adnodd, yn unol â gofynion cytundebau comisiynu Llywodraeth Cymru;
- casglu adborth yn ystod y broses o baratoi deunyddiau, trwy dreialu adnoddau unigol, yn unol â gofynion cytundebau comisiynu Llywodraeth Cymru;
- holi barn athrawon ar lefel iaith, gosodiad, dyluniad a chynnwys yn unol â gofynion cytundebau Llywodraeth Cymru.

7.15 Adroddodd chwech allan o'r 14 cyhoeddwr bod ganddynt brosesau mewn lle i gasglu adborth gan ddysgwyr.

“Rydym ni ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth gan blant 9-11 oed i weld os ydy'r deunydd sydd yn cael ei baratoi yn taro deuddeg. Rydym yn gwneud hyn drwy anfon deunydd drafft, lliw llawn i'r grŵp targed. Rydym wedyn yn derbyn ymatebion gan y plant cyn symud ymlaen i gyflawni'r cyfan.”

Cyhoeddwr (Holiadur)

Dulliau marchnata adnoddau

7.16 Amlinellwyd amrywiaeth eithaf eang o ddulliau marchnata adnoddau cyfrwng Cymraeg i ysgolion gan gynnwys:

- dosbarthu taflenni gwybodaeth;
- gwefannau'r cyhoeddwr;
- catalogau neu gylchlythyrau'r cyhoeddwr;
- cyfryngau cymdeithasol;
- gwales.com;

- negeseuon e-bost at athrawon pwnc unigol (gyda rhai cyhoeddwr yn defnyddio cronfeydd data mewnol gyda manylion cyswllt ysgolion ac athrawon);
- ymweliadau i ysgolion/sesiynau hyfforddi i ymarferwyr;
- Cyngor Llyfrau Cymru.

7.17 Roedd teimlad ymysg nifer o gyhoeddwr bod gwendidau yn y ffordd y mae adnoddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu marchnata. Ym marn un ohonynt, nid oes digon o gydnabyddiaeth (yn y broses gomisiynu nac ymysg cyhoeddwr) o bwysigrwydd marchnata.

‘Mae cwmnïau addysgol fel [enw cwmni] neu [enw cwmni] yn clustnodi cyfran uchel (cymaint â 50 y cant) o’u buddsoddiad mewn prosiect penodol ar farchnata. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd marchnata er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad sy’n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn cael ei adennill.’

Cyhoeddwr (Holiadur)

7.18 Mae’r pwynt uchod yn ategu sylwadau nifer o ymarferwyr ynglŷn â’r angen am un ffynhonnell gynhwysfawr yn cynnwys manylion am yr holl adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael (ac nid wedi’i chyfyngu i’r adnoddau a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru), boed trwy gatalog neu gronfa ddata ar-lein.

8. Casgliadau

8.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno casgliadau'r adolygiad yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd gan ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwr. Yn gyntaf, cyflwynir ein casgliadau o dan bedair thema:

- Derbyn gwybodaeth;
- Dewis o adnoddau;
- Ystyriaethau wrth ddewis adnoddau;
- Anghenion pellach.

Yn ail, cyflwynir ein casgliadau yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Derbyn gwybodaeth

8.2 Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad hwn yn dangos bod mwyafrif yr ymarferwyr a holwyd yn derbyn gwybodaeth am yr adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael drwy sawl ffynhonnell. Serch hynny, roedd nifer o ymarferwyr (gan gynnwys penaethiaid adrannau ac aelodau uwch dimau ysgolion) yn ansicr a oeddynt yn derbyn yr holl wybodaeth berthnasol ynglŷn ag adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae sylwadau ymarferwyr yn awgrymu eu bod yn teimlo bod lle i symleiddio'r broses o ddsbarthu gwybodaeth am adnoddau. Roedd nifer o ymarferwyr a chyhoeddwr o'r farn y byddai un ffynhonnell gynhwysfawr ganolog o wybodaeth ar yr holl adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael yn ddefnyddiol i gyd-fynd â'r wybodaeth y maent yn ei derbyn ar hyn o bryd.

8.3 Mae'r dystiolaeth gan gyhoeddwr yn cefnogi'r farn ymysg rhai ymarferwyr nad ydynt yn hyderus eu bod yn ymwybodol o'r holl adnoddau sydd ar gael yn eu pynciau a bod dull marchnata'r adnoddau yn anghyson.

Dewis o adnoddau

- 8.4 Ymddengys bod barn gymysg gan ymarferwyr ynglŷn â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael iddynt yn ogystal â'r wybodaeth sydd ar gael am yr adnoddau hyn. Roedd 28 y cant o ymarferwyr o'r farn bod dewis 'da' neu 'dda iawn' o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael, o'i gymharu â 41 y cant a nododd fod y dewis yn 'wael' neu'n 'wael iawn'.
- 8.5 Awgryma canlyniadau'r holiadur ymarferwyr bod canran uwch o ymarferwyr o'r sector cynradd o'r farn bod y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn 'dda'. Roedd 47 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y dewis o adnoddau yn 'dda' neu'n 'dda iawn', o'i gymharu â 28 ar gyfartaledd. Roedd llai o ymarferwyr yn y sector uwchradd (21 y cant) a'r sector addysg bellach (21 y cant) o'r farn bod y dewis yn 'dda' neu'n 'dda iawn'.⁴⁹
- 8.6 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau o'r farn nad oedd digon o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael yn eu pwnc. Er eu bod yn croesawu'r hyn oedd ar gael, roedd y mwyafrif yn cymharu'r hyn oedd ar gael yn y Gymraeg gyda'r dewis o adnoddau cyfrwng Saesneg.
- 8.7 Ar sail y sampl o ymarferwyr uwchradd a ymatebodd i'r holiadur, ymddengys bod barn ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf yn fwy cadarnhaol nac athrawon pynciau eraill ynglŷn â'r dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.⁵⁰ Roedd athrawon pynciau eraill – yn enwedig mewn ysgolion dwyieithog – yn llai bodlon â'r dewis, ac yn fwy tueddol o gymharu'r dewis cyfrwng Cymraeg â'r hyn sydd ar gael trwy gyfrwng y Saesneg. Awgryma'r dystiolaeth o'r cyfweiliadau fod hyn, o

⁴⁹ Yn seiliedig ar 119 o ymatebwyr cynradd allan o 127, 230 uwchradd allan o 234, a 42 addysg bellach allan o 45. Gweler Adrannau 3.30 a 3.31 ar gyfyngiadau dehongli'r data fesul sector.

⁵⁰ Yn seiliedig ar 38 o ymatebwyr allan o 39 a nododd Cymraeg Iaith Gyntaf fel eu prif bwnc. Mae angen gofal wrth ddehongli'r ymateb gan nad yw'n seiliedig ar sampl gynrychioliadol (gweler adran 3.31 a 3.32).

bosibl, yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw hi mor hawdd i athrawon Cymraeg iaith Gyntaf gymharu'r dewis o adnoddau yn uniongyrchol â'r hyn sydd ar gael drwy gyfrwng y Saesneg.

- 8.8 Ymarferwyr addysg bellach oedd lleiaf bodlon â'r dewis o adnoddau yn y cyfweiliadau a'r grwpiau trafod, gyda nifer yn cymharu'r sefyllfa mewn addysg bellach gyda'r dewis ehangach o adnoddau i ysgolion.

Ystyriaethau wrth ddewis adnoddau

- 8.9 Nododd ymarferwyr bod diwyg adnoddau, perthnasedd i'r cwricwlwm ac addasrwydd i allu a lefel y dysgwyr, yn ffactorau pwysig wrth ddewis adnoddau. Pwysleisiodd dysgwyr bwysigrwydd y ffactorau hyn yn ogystal, gyda dysgwyr cynradd a Chyfnod Allweddol 3 yn fwy tebygol o bwysleisio diwyg adnoddau, a dysgwyr Blynyddoedd 12 ac 13 yn pwysleisio perthnasedd i'w cyrsiau.
- 8.10 Pwysleisiwyd pwysigrwydd adnoddau rhyngweithiol ac aml-blattform gan bron bob un o'r ymarferwyr cynradd, uwchradd ac addysg bellach mewn cyfweiliadau. Roedd nifer o ymarferwyr ar draws y sectorau cynradd, uwchradd ac addysg bellach o'r farn bod angen i fwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fod ar gael ar ffurf rhyngweithiol y gellid eu haddasu. Nododd dysgwyr bod adnoddau rhyngweithiol yn apelio atynt yn fawr, gan gynnwys gemau, gwefannau rhyngweithiol a chynnwys aml-gyfrwngol.
- 8.11 Mynegodd nifer o ymarferwyr eu rhwystredigaeth gyda'r ffaith bod adnoddau yn cael eu cyhoeddi mewn ffordd nad yw'n caniatáu iddynt gael eu haddasu neu eu golygu. Er eu bod yn deall y rhesymau dros hyn (e.e. hawlfraint), roedd nifer o'r farn y dylid sicrhau bod yr adnoddau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gael i'w haddasu yn electronig.

Anghenion pellach

- 8.12 Roedd nifer o athrawon o'r farn bod prinder adnoddau cyfoes cyfrwng Cymraeg ar gyfer addysgu Cyfnod Allweddol 3. Cymharwyd hyn â'r sefyllfa ar gyfer adnoddau Cyfnod Allweddol 4, gyda nifer o'r farn bod diffyg amser i allu defnyddio'r holl adnoddau a oedd ar gael ar gyfer yr ystod oedran hon.
- 8.13 Roedd mwyafrif yr ymarferwyr a gymrodd ran mewn cyfweiliadau o'r farn nad oedd digon o adnoddau ar gael ar gyfer cwrdd â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn eu pwnc. Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o adnoddau perthnasol wedi eu comisiynu yn ddiweddar. Mae rhestr o'r adnoddau sydd wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn.
- 8.14 Mynegodd nifer o ymarferwyr a dysgwyr eu barn bod prinder clipiau ffilm a gwefannau i gefnogi cyrsiau mewn nifer o bynciau. Nododd nifer o athrawon bod pwyslais cynyddol ar ddeunyddiau o'r fath fel rhan o gynlluniau gwersi a bod angen sicrhau nad oedd dysgwyr o dan anfantais oherwydd diffyg adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- 8.15 Roedd cael cynnwys a oedd yn addas ar gyfer dysgwyr gyda gwahanol lefelau gallu yn bwysig yn ôl nifer o'r ymarferwyr a gymrodd ran yn y gwaith maes. Nododd rhai ymarferwyr bod angen rhagor o amrywiaeth o ran lefelau, tasgau a gweithgareddau mewn rhai gwर्सlyfrau a oedd ond yn cynnig cynnwys addas ar gyfer dysgwyr 'nodweddiadol' (h.y. nid dysgwyr is eu gallu neu rhai gallu uwch).
- 8.16 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan gyhoeddwr yn ategu ac yn cefnogi'r dystiolaeth a gasglwyd gan ymarferwyr yn ystod yr adolygiad hwn. Awgryma'r dystiolaeth gan gyhoeddwr bod nifer o'r farn bod y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg wedi gwella yn ddiweddar ond bod rhai yn dal i weld anghenion pellach mewn rhai meysydd. Awgryma hefyd bod cyhoeddwr yn ymwybodol o anghenion ysgolion trwy

dderbyn manylebau'r rhaglen gomisiynu adnoddau a'u bod yn addasu i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru o ran creu adnoddau rhyngweithiol.

8.17 Nododd mwyafrif yr ymarferwyr fod deunyddiau allweddol cyfrwng Cymraeg yn aml yn eu cyrraedd yn hwyrach nag adnoddau cyfrwng Saesneg. Roedd hyn yn destun rhwystredigaeth i ymarferwyr ac i rai o'r dysgwyr Blynyddoedd 12 ac 13.

Arwyddocâd y casgliadau yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

8.18 Mae'r adrannau isod yn ystyried arwyddocâd y dystiolaeth ar draweffaith y rhaglen gomisiynu adnoddau yng nghyd-destun y gwaith o werthuso'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'n ymdrin â'r cwestiynau a gyflwynwyd yn Adran 1.5 ac yn cysylltu canfyddiadau'r adolygiad hwn gyda'r Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y rhaglen ymchwil yn fwy eang.

8.19 Nid yw'r isod yn ymdrech i ddod i gasgliadau terfynol ynghylch cyfraniad y rhaglen gomisiynu adnoddau i nodau'r Strategaeth; bydd y rhaglen ymchwil ehangach yn rhoi ystyriaeth fanylach i hyn. Serch hynny, mae'n briodol ein bod yn gosod casgliadau'r adolygiad presennol yng nghyd-destun y rhaglen ymchwil a'r ystyriaethau a fydd yn cael sylw yng ngwerthusiad llawn y Strategaeth.

Ym mha ffordd y mae'r rhaglen wedi gwella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg?

8.20 Cesglir bod y rhaglen gomisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i '*wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg*', sef Nod strategol 5 Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r adolygiad hwn yn dangos yn glir bod galw parhaus am raglen gomisiynu adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddiwallu anghenion ymarferwyr a dysgwyr.

Cesglir bod y rhaglen gomisiynu yn rhan ganolog o'r gwaith i gefnogi Nod Strategol 5 y Strategaeth.

A yw'r rhaglen wedi helpu i gynyddu a gwella'r amrywiaeth o adnoddau addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg ac iaith Cymraeg?

8.21 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod y rhaglen gomisiynu adnoddau wedi cynyddu a gwella'r dewis o adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael. Cydnabu ymarferwyr a chyhoeddwyr bod cynnydd sylweddol yn nifer ac ystod y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael. Yn ogystal, roedd barn gadarnhaol gan nifer o ymarferwyr a dysgwyr ar ansawdd yr adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio, gan gynnwys llawer o'r adnoddau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

8.22 Awgryma'r dystiolaeth gan ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwyr bod yr adnoddau sydd wedi'u comisiynu drwy'r rhaglen yn helpu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Serch hynny, dengys y dystiolaeth bod galw am ragor o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar draws ystod eang o bynciau a meysydd, yn enwedig adnoddau rhyngweithiol a deunyddiau eraill sydd yn manteisio ar dechnolegau newydd i gefnogi dulliau addysgu.

A yw'r rhaglen gomisiynu adnoddau yn plethu â/ategu rhaglenni eraill sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth?

8.23 Nid oedd y cyswllt rhwng y rhaglen gomisiynu adnoddau a rhaglenni eraill sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth yn elfen amlwg yn yr adolygiad hwn. Serch hynny, roedd dystiolaeth yn dangos bod adnoddau a gomisiynwyd trwy'r rhaglen gomisiynu adnoddau yn cysylltu â rhai o'r rhaglenni hyn. Mae Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg bellach. Yn ogystal, mae adnoddau

Cymraeg Ail Iaith yn cefnogi gwaith athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd elfennau eraill y gwerthusiad yn ystyried mewn rhagor o fanylder i ba raddau y mae gwahanol raglenni sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth yn cyd-blethu.

Y gwrthffeithiol: a fyddai'r adnoddau a gomisiynwyd fel rhan o'r rhaglen wedi cael eu cyhoeddi beth bynnag?

8.24 Er mwyn gwneud asesiad llawn o'r gwrthffeithiol, byddai angen profi'r traweffaith ar ymarferwyr, dysgwyr a chyhoeddwyd pe na bai'r rhaglen gomisiynu adnoddau yn bodoli. Byddai angen ystyried a fyddai cyhoeddwyd wedi datblygu a marchnata unrhyw un o'r cyhoeddiadau a gomisiynwyd trwy'r rhaglen gomisiynu adnoddau yn annibynnol. Er na wnaeth yr adolygiad holi cwestiynau penodol ar y gwrthffeithiol, mynegodd nifer o ymarferwyr a chyhoeddwyd eu barn na fyddai'r un ystod o adnoddau addysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael yn absenoldeb y rhaglen gomisiynu adnoddau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y rhaglen gomisiynu wedi cynyddu'r ystod o adnoddau sydd ar gael ar draws y cyfnodau allweddol ac ar draws ystod eang o bynciau.

9. **Atodiad 1: Data ar farn ymarferwyr ar adnoddau ar gyfer pynciau unigol**

- 9.1 Mae'r atodiad hwn yn crynhoi ymateb ymarferwyr ar draws pynciau unigol gan gyflwyno gwybodaeth ar ddefnydd adnoddau mewn meysydd pwnc penodol. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli data sydd yn seiliedig ar samplau bach o ymatebwyr nad ydynt yn gynrychioliadol, ac mae hyn yn arbennig o wir wrth drafod yr ymatebion o fewn pynciau unigol isod (gweler Adrannau 3.31 a 3.32 hefyd).

Tabl 12. Ymateb ymarferwyr uwchradd ac addysg bellach fesul pwnc i'r cwestiwn: 'Beth yw eich barn ar y modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ei dosbarthu/marchnata i ysgolion?'

Pwnc	Nifer yr ymatebwyr					
	Da iawn	Da	Nid yn dda nac yn wael	Gwael	Gwael iawn	Nifer yr ymatebion
Cymraeg Iaith Gyntaf	0	15	15	5	2	37
Gwyddoniaeth	1	3	12	5	1	22
Mathemateg	0	3	10	5	3	21
Cymraeg Ail Iaith	0	4	7	6	3	20
Addysg Grefyddol	0	4	5	4	2	15
Celf a Dylunio	0	3	6	5	1	15
Daearyddiaeth	0	1	8	3	2	14
Dylunio a Thechnoleg	0	2	6	6	0	14
Hanes	0	2	4	4	3	13
Addysg Gorfforol	1	3	1	3	3	11
Ieithoedd Tramor Modern	0	1	4	4	2	11
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	0	2	3	3	0	8
Cerddoriaeth	0	1	3	2	1	7
Drama	0	1	2	2	1	6
Busnes	0	2	1	2	0	5
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	0	0	3	2	0	5
Trin Gwallt a Harddwch	0	0	3	1	0	4
Anghenion Dysgu Ychwanegol	0	0	2	1	0	3
Bagloriaeth Cymru	0	0	1	1	1	3
Lletygarwch ac Arlwyo	0	0	0	3	0	3
Adeiladwaith	0	1	0	1	0	2
Economeg	0	1	0	0	1	2
Gwasanaethau Cyhoeddus	0	0	1	0	1	2
Peirianeg	0	0	2	0	0	2
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	0	0	1	0	0	1
Amaethyddiaeth	0	1	0	0	0	1
Cymdeithaseg	0	0	1	0	0	1
Y Gyfraith	0	1	0	0	0	1
Arall	0	2	9	6	1	18

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=267⁵¹

⁵¹ Mae'r niferoedd ar gyfer pynciau unigol yn isel iawn felly dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau. Ni chafwyd ymatebion gan ymarferwyr oedd yn addysgu Cyfryngau, Dawns, Gyrfaoedd, Hamdden a Thwristiaeth, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Perfformio a Seicoleg.

Tabl 13. Ymateb ymarferwyr uwchradd ac addysg bellach fesul pwnc i'r cwestiwn: 'Beth yw eich barn, yn gyffredinol, ar y dewis o adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael?'

Pwnc	Nifer yr ymatebwyr					
	Da iawn	Da	Nid yn dda nac yn wael	Gwael	Gwael iawn	Nifer yr ymatebwyr
Cymraeg Iaith Gyntaf	3	12	16	6	1	38
Gwyddoniaeth	0	5	8	5	4	22
Cymraeg Ail Iaith	0	5	4	9	3	21
Mathemateg	0	3	8	8	2	21
Addysg Grefyddol	0	2	6	3	4	15
Celf a dylunio	1	2	7	4	1	15
Daearyddiaeth	0	3	2	5	4	14
Dylunio a Thechnoleg	1	3	3	4	3	14
Hanes	0	2	5	2	3	12
Addysg Gorfforol	0	2	1	4	4	11
Ieithoedd Tramor Modern	0	0	3	6	2	11
Cerddoriaeth	0	1	3	4	0	8
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	0	0	1	7	0	8
Drama	0	1	2	2	1	6
Busnes	1	2	1	1	0	5
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	0	1	1	1	2	5
Trin Gwallt a Harddwch	0	0	2	2	0	4
Anghenion Dysgu Ychwanegol	0	0	3	0	0	3
Bagloriaeth Cymru	0	0	1	2	0	3
Lletygarwch ac Arlwyio	0	0	0	3	0	3
Adeiladwaith	0	1	0	1	0	2
Economeg	1	0	0	1	0	2
Gwasanaethau Cyhoeddus	0	0	0	1	1	2
Peirianeg	0	0	1	1	0	2
Y Gyfraith	0	1	0	1	0	2
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	0	0	0	1	0	1
Amaethyddiaeth	0	1	0	0	0	1
Cymdeithaseg	0	0	0	0	1	1
Arall	0	3	3	9	3	18

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=270

Cymraeg Iaith Gyntaf

9.2 Cafwyd 39 o ymatebion i'r holiadur gan ymarferwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf fel prif bwnc. Roedd 24 ohonynt yn athrawon pwnc, naw yn benaethiaid adran a phump ohonynt â swyddogaeth arall (e.e. pennaeth blwyddyn, pennaeth anghenion dysgu ychwanegol, cydlynnydd llythrennedd, cydlynnydd cyfathrebu).⁵² Mae'r tabl isod yn nodi'r pum adnodd mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf yn eu defnyddio.

Tabl 14. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Seren Iaith (Atebol)	30
Cyfres y Goleudy: Cymru a Chymreictod (CAA)	28
Cyfres y Goleudy: Pigo Cydwybod (CAA)	27
Cyfres y Goleudy: Rhyfel a Heddwch (CAA)	25
Cyfres y Goleudy: Ieuencid (CAA)	24

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=34 (allan o 39 ymarferwr).

9.3 Mae'r tabl isod yn dangos pa adnoddau a nodwyd fel yr adnoddau mwyaf defnyddiol gan ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf.

⁵² Ni wnaeth un o'r ymarferwyr ateb y cwestiwn ar eu swyddogaeth.

Tabl 15. Adnoddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf yn eu gweld fwyaf defnyddiol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Seren Iaith (Atebol)	7
Jig so 1 a 2 (Atebol)	6
Adnoddau ar GCaD/Hwb	6
Cyfres y Goleudy (CAA)	5
Adnoddau Gloywi Iaith Blackboard Learn (Ddim yn adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru)	1
ap_geiriaduron (Ddim yn adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru)	1
Berw'r Byd (Y Lolfa)	1
Crawc (Cube)	1
Cyfres Clic (CAA)	1
Gweiddi (Tinopolis)	1
Llyfrau Bwrlwm (CAA)	1
Llyfrynau TGAU yn seiliedig ar y nofelau gosod	1
Sbardun 1 a 2 (CAA)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=33 (allan o 39 ymarferwr)

- 9.4 Gofynnwyd i ymarferwyr pa mor nodweddiadol oedd yr adnodd hwn o'r holl adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd 16 allan o 32 ymatebwr o'r farn fod 'adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn' tra bod 15 o'r farn fod rhai adnoddau eraill oedd yr un mor ddefnyddiol. Dim ond un ymatebwr oedd o'r farn fod llawer o adnoddau mor ddefnyddiol â'r un yr oeddynt wedi'i nodi.

Cymraeg Ail Iaith

- 9.5 Cafwyd 23 o ymatebion i'r holiadur gan ymarferwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Ail Iaith fel prif bwnc. Roedd 13 ohonynt yn athrawon pwnc, saith yn benaethiaid adran a phedwar ohonynt â swyddogaeth arall (e.e. pennaeth blwyddyn, pennaeth cyfnod allweddol). Mae'r tabl isod yn nodi'r adnoddau mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Ail Iaith yn eu defnyddio.

Tabl 16. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Ail Iaith

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Cynllun Taith Iaith (CAA)	15
Cymraeg Da (Y Lolfa)	13
DVD Hedd Wyn (Tinopolis)	12
DVD Taith Iaith (CAA)	11
Golwg ar Iaith (CAA)	10

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=21 (allan o 23 ymarferwr)

- 9.6 Mae'r tabl isod yn dangos pa adnoddau a nodwyd fel yr adnoddau mwyaf defnyddiol gan ymarferwyr Cymraeg Ail Iaith.

Tabl 17. Adnoddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Cymraeg Ail Iaith yn eu gweld fwyaf defnyddiol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Cardiau darllen CA3 + CA4 (Peniarth)	4
Ar waith (CAA)	3
Taith Iaith (CAA)	2
Adnoddau ar GCaD/Hwb	2
Clic Clonc (Telesgop)	1
Amrywiaeth o lyfrau hanes Cymru	1
Cerddi Blwyddyn 12 (Hwb)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=14 (allan o 23 ymarferwr)

- 9.7 Gofynnwyd i ymarferwyr pa mor nodweddiadol oedd yr adnodd hwn o'r holl adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd 12 allan o 14 ymatebwr o'r farn bod 'adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn' tra bod 2 o'r farn bod rhai adnoddau eraill a oedd mor ddefnyddiol.

Gwyddoniaeth

9.8 Cafwyd 22 o ymatebion i'r holiadur gan ymarferwyr a oedd yn addysgu Gwyddoniaeth fel prif bwnc. Roedd naw ohonynt yn athrawon pwnc, wyth yn benaethiaid adran a phump ohonynt â swyddogaeth arall (e.e. pennaeth Bioleg, pennaeth cyfnod allweddol, dirprwy bennaeth). Mae'r tabl isod yn nodi'r adnoddau mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Gwyddoniaeth yn eu defnyddio.

Tabl 18. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Gwyddoniaeth

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
CBAC: TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol (Hodder)	15
CBAC: TGAU Gwyddoniaeth (Hodder)	14
Bioleg Safon Uwch (CAA)	12
TGAU Gwyddoniaeth a TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol (Hodder)*	12
Gwyddoniaeth Gyfun Newydd: Bioleg ar Gyfer yr Haen Uwch (Dref Wen)	9
Gwyddoniaeth Gyfun Newydd: Cemeg ar Gyfer yr Haen Uwch (Dref Wen)	9

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg N=21 (allan o 22 ymarferwr). *Atebodd y rhain ar sail y ddau adnodd.

9.9 Mae'r tabl isod yn dangos pa adnoddau a nodwyd fel yr adnoddau mwyaf defnyddiol gan ymarferwyr Gwyddoniaeth.

Tabl 19. Adnoddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Gwyddoniaeth yn eu gweld fwyaf defnyddiol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
TGAU Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol (Hodder)	10
Gwyddoniaeth 3 – grymoedd (GCaD)	1
Gwyddoniaeth Gyfun Cemeg (Dref Wen)	1
Llyfrau CBAC / GCaD	1
Ffiseg TGAU Gwyddoniaeth (CAA)	1
Cemeg UG CBAC (CAA)	1
Llyfr Bioleg Uwch (CAA)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=16 (allan o 22 ymarferwr)

9.10 Gofynnwyd i ymarferwyr pa mor nodweddiadol oedd yr adnodd hwn o'r holl adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd wyth allan o 18 ymatebwr o'r farn bod 'adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn', tra bod naw o'r farn fod rhai adnoddau eraill oedd mor ddefnyddiol, ac un o'r farn bod llawer o adnoddau eraill oedd mor ddefnyddiol.

Daearyddiaeth

9.11 Cafwyd 14 o ymatebion i'r holiadur gan ymarferwyr a oedd yn addysgu Daearyddiaeth fel prif bwnc. Roedd wyth ohonynt yn athrawon pwnc, chwech yn benaethiaid adran a dau ohonynt â swyddogaeth arall (e.e. pennaeth cynorthwyol, pennaeth blwyddyn). Mae'r tabl isod yn nodi'r adnoddau mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Daearyddiaeth yn eu defnyddio.

Tabl 20. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Daearyddiaeth

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Daeiar 1, 2, 3 - 3 llyfr Disgybl a 3 Ffeil Athro (Gomer)	12
Y Byd Eang, Y Byd Eang - Cydymaith Cwrs, Y Byd Eang - Llyfr Athro (Gomer)	11
Atlas Cymru, Atlas of Wales (CBAC/OUP)	10
TGAU Daearyddiaeth ar Gyfer Manyleb A CBAC (Hodder)	9
Gwaith Map: Sgiliau Sylfaenol - Ar Gyfer Cyfnod Allweddol 3 (Atebol)	8
Gwaith Map: Sgiliau Hanfodol - Ar Gyfer TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch (Atebol)	8
TGAU Daearyddiaeth ar Gyfer Manyleb A CBAC – Dewisiadau (Hodder)	8
Daeiar 1, 2, 3 - 3 llyfr Disgybl a 3 Ffeil Athro (Gomer)	12

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=12 (allan o 14 ymarferwr)

9.12 Mae'r tabl isod yn dangos pa adnoddau a nodwyd fel yr adnoddau mwyaf defnyddiol gan ymarferwyr Daearyddiaeth.

Tabl 21. Adnoddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Daearyddiaeth yn eu gweld fwyaf defnyddiol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Deunyddiau ar GCaD/Hwb	3
Y Byd Eang (Gomer)	3
Atlas y Byd (CBAC/OUP)	2
TGAU Daearyddiaeth ar gyfer Manyleb A a'r llyfr dewisiadau (Hodder)	1
Daeiar 1,2,3 (Gomer)	1
Daearyddiaeth TGAU CBAC Manyleb A (Hodder)	1
Daearyddiaeth TGAU CBAC Manyleb B (Atebol)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=12 (allan o 14 ymarferwr)

9.13 Gofynnwyd i ymarferwyr pa mor nodweddiadol oedd yr adnodd hwn o'r holl adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd hanner (chwech allan o 12) yr ymatebwyr o'r farn bod 'adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn' tra bod hanner (chwech) o'r farn bod rhai adnoddau eraill oedd mor ddefnyddiol.

Addysg Grefyddol

9.14 Cafwyd 15 o ymatebion i'r holiadur gan ymarferwyr a oedd yn addysgu Addysg Grefyddol fel prif bwnc. Roedd wyth ohonynt yn athrawon pwnc, chwech yn benaethiaid adran a thri ohonynt â swyddogaeth arall (e.e. pennaeth maes, pennaeth blwyddyn). Mae'r tabl isod yn nodi'r adnoddau mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Addysg Grefyddol yn eu defnyddio.

Tabl 22. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Addysg Grefyddol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Credu a Phrofi (Gomer)	14
Credu a Byw (Hodder)	13
Archwilio Materion Mewn Addysg Grefyddol: Llyfrau 1, 2, 3 (Nelson Thornes)	11
Crefydd a Materion Bywyd ar gyfer Manyleb B Astudiaethau Crefyddol CBAC (Hodder)	11
Crefydd a'r Profiad Dynol ar gyfer Manyleb B Astudiaethau Crefyddol CBAC - Canllaw Adolygu (Hodder)	11

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=15 (allan o 15 ymarferwr)

9.15 Mae'r tabl isod yn dangos pa adnoddau a nodwyd fel yr adnoddau mwyaf defnyddiol gan ymarferwyr Addysg Grefyddol.

Tabl 23. Adnoddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu Addysg Grefyddol yn eu gweld fwyaf defnyddiol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Credu a Byw a Chredu a Phrofi - llyfrau TGAU (Hodder a Gomer)	5
Archwilio Materion Mewn Addysg Grefyddol (Nelson Thornes)	2
Crefydd yn y Gymdeithas Gyfoes (UWIC)	1
Bwdhaeth AS (UWIC)	1
AS Bwdhaeth ac Iddewiaeth - Adnoddau ar Hwb	1
Adnoddau ar Hwb/ GCaD (heb nodi enw'r adnodd)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=11 (allan o 15 ymarferwr)

9.16 Gofynnwyd i ymarferwyr pa mor nodweddiadol oedd yr adnodd hwn o'r holl adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd naw allan o'r 12 ymatebwr o'r farn bod 'adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn' tra bod tri o'r farn bod rhai adnoddau eraill a oedd mor ddefnyddiol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

9.17 Cafwyd wyth o ymatebion i'r holiadur gan ymarferwyr a oedd yn addysgu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fel prif bwnc. Roedd dau ohonynt yn athrawon pwnc, pedwar yn benaethiaid adran a thri ohonynt â swyddogaeth arall (e.e. pennaeth maes, athro TGCh a Chyfrifiaduro). Mae'r tabl isod yn nodi'r adnoddau mwyaf poblogaidd yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu TGCh yn eu defnyddio.

Tabl 24. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu TGCh

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
TGAU TGCh Hanfodol (CAA)	5
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - Y Llyfr Adolygu (CAA)	3
TGCh Safon UG & Uwch drwy Ddiagramau (CAA)	3
Cwrs TGAU TGCh CBAC	3
Siartiau Wal Rhyngweithiol TGCh - wedi eu dosbarthu am ddim ar CD ROM (Daydream)	2
E-ddiogelwch (Hwb)	2

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=6 (allan o 8 ymarferwr)

9.18 Mae'r tabl isod yn dangos pa adnoddau a nodwyd fel yr adnoddau mwyaf defnyddiol gan ymarferwyr TGCh.

Tabl 25. Adnoddau yr oedd ymatebwyr a oedd yn addysgu TGCh yn eu gweld fwyaf defnyddiol

Teitl	Nifer yr ymatebwyr
Adnoddau ar GCaD/Hwb	2
Gwefan Cynnal TGAU + Lefel A	2
TGCh Hanfodol (CAA)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg
N=5 (allan o 8 ymarferwr)

9.19 Gofynnwyd i ymarferwyr pa mor nodweddiadol oedd yr adnodd hwn o'r holl adnoddau yr oeddynt yn eu defnyddio. Roedd naw allan o 12 o'r ymatebwyr o'r farn bod 'adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn' tra bod tri o'r farn bod rhai adnoddau eraill a oedd mor ddefnyddiol.

Pynciau Galwedigaethol

9.20 Cwblhaodd 26 o ymarferwyr a oedd yn addysgu pynciau galwedigaethol yr holiadur i ymarferwyr. Roedd y rhain yn dilyn cyrsiau Adeiladwaith,

Amaethyddiaeth, Astudiaethau Busnes, Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Lletygarwch ac Arlwy, Trin Gwallt a Harddwch, Peirianeg a'r Gyfraith.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

9.21 Cwblhaodd pump o ymarferwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr holiadur i ymarferwyr. Nodir isod yr adnoddau mwyaf poblogaidd ymysg y pedwar o ymarferwyr a ymatebodd i'r cwestiwn ar ddefnydd adnoddau.

Tabl 26. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Enw'r adnodd	Nifer yr ymatebwyr
Adnoddau Iechyd a Gofal (Hwb/GCaD)	3
Gofal a Datblygiad Plant (CAA)	2
Llawlyfr Iechyd a Gofal Cymdeithasol A-Y (Gwasg Taf)	1
Adnoddau Iechyd a Gofal Lefel 3 (Hwb/GCaD)	1
Dysgu gofalu - Elaine Davies (ddim yn adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru)	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg.

N=4 (allan o 5 ymarferwr)

Gwasanaethau Cyhoeddus

9.22 Cwblhaodd dau ymarferwr Gwasanaethau Cyhoeddus yr holiadur i ymarferwyr. Nododd un ymarferwr Gwasanaethau Cyhoeddus eu bod wedi defnyddio llyfrau *Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2 a 3* (CAA). Nododd yr ymarferwr mai *Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 3 (llyfr 1)* oedd yr adnodd mwyaf defnyddiol yr oedd wedi ei ddefnyddio ac y gellid gwneud yr adnodd yn fwy defnyddiol trwy gael copi electronig a gweithgareddau rhyngweithiol i gyd-fynd â chynnwys y llyfr.

Lletygarwch ac Arlwy

9.23 Cwblhaodd tri o ymarferwyr Lletygarwch ac Arlwy yr holiadur i ymarferwyr. Roedd un o'r ymarferwyr a ymatebodd wedi defnyddio

adnodd *Cogydd Proffesiynol Lefel 1 (CAA)* ac un wedi defnyddio *Lletygarwch ac Arlwyo ar gyfer TGAU (Gomer)*. Roedd un ymarferwr yn defnyddio adnoddau wedi eu cyfieithu'n fewnol yn y coleg. Nododd un ymarferwr fod adnoddau *Lletygarwch ac Arlwyo ar gyfer TGAU (Gomer)* yn 'dda iawn' o ran yr holl agweddau a holwyd amdanynt yn yr holiadur. O ran anghenion pellach, nododd yr ymarferwr y byddai'n hoffi gweld cyfieithiad o'r adnodd adolygu Saesneg sydd yn cyd-fynd â'r llyfr. Nododd yn ogystal y byddai'n hoffi gweld posteri ac adnoddau digidol perthnasol ar gael ar gyfer y pwnc.

Adeiladwaith

9.24 Cwblhaodd dau o ymarferwyr addysg bellach yr holiadur i ymarferwyr. Roedd un ymarferwr wedi defnyddio *Crefft Gosod Briciau a Defnyddio Trywel – Lefel 2 (NLN)* a *Bondiau Briciau (NLN)*. Roedd y ddau yn addysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Saesneg gyda pheth darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ni chynigiodd yr ymarferwyr eu barn ar ansawdd, diwyg na pherthnasedd adnoddau penodol o fewn eu pwnc.

Trin Gwallt a Harddwch

9.25 Cwblhaodd pedwar o ymarferwyr yr holiadur. Roedd tri allan o'r pedwar wedi defnyddio yr Adnoddau Trin Gwallt ar wefan www.habia.org a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Nododd un ymarferwr mai cyfieithu adnoddau eu hunain oedd y coleg yn ei wneud ar gyfer y cwrs.

9.26 Ni chynigiodd yr ymarferwyr eu barn ar ansawdd, diwyg na pherthnasedd adnoddau penodol Trin Gwallt a Harddwch. Nododd un ymarferwr, fodd bynnag, fod y Gymraeg yn anodd i'r dysgwyr ei ddeall yn aml, a bod angen symleiddio'r iaith a ddefnyddir. Nododd un ymarferwr fod adnoddau ar Hwb yn dda ac yn ddefnyddiol a nododd y dymunai weld llawlyfr a thafenni gwaith yn cael eu datblygu i gyd-fynd â'r cwrs.

Amaethyddiaeth

- 9.27 Cwblhaodd un ymarferwr Amaethyddiaeth yr holiadur i ymarferwyr. Nododd yr ymarferwr eu bod wedi defnyddio'r canlynol o ran adnoddau wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru: *DVD Cynhyrchu Cnydau yng Nghymru* (CAA), *Iechyd Anifeiliaid Fferm*, *Cynhyrchiant Cig Eidion* (Telesgop) ac *Amaeth Cymru ar Lein* (Hwb).

Astudiaethau Busnes

- 9.28 O ran Astudiaethau Busnes, nodir isod yr adnoddau mwyaf poblogaidd ymysg y pump o ymarferwyr a ymatebodd i'r holiadur isod.

Tabl 27. Yr adnoddau/teitlau mwyaf cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr a oedd yn addysgu Astudiaethau Busnes

Enw'r adnodd	Nifer yr ymatebwyr
Posteri Daydream Astudiaethau Busnes (Daydream)	3
Gweinyddiaeth Busnes/Busnes Administration (Illumina Digital)	2
Busnes Cymhwysol (Tinopolis GCaD)	1
Astudiaethau Busnes cyfrol 2 (Tinopolis GCaD)	1
Gweithredu busnes llwyddiannus/Operating a successful business (Hwb)	1
TGAU Astudiaethau Busnes (Cyfieithiad) (ddim yn adnodd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru)	1
Gwefan Echelgais – Hwb ⁵³	1

Ffynhonnell: Arolwg ymarferwyr Adolygiad Adnoddau Cyfrwng Cymraeg

N=5 (allan o 5 ymarferwr)

- 9.29 Adroddodd un ymarferwr fod adnoddau Busnes a Gweinyddiaeth sydd ar Hwb (12 modiwl) yn ddefnyddiol ac o ansawdd da iawn. Nododd yr ymarferwr, fodd bynnag, y byddai'n ddefnyddiol petai rhai o'r adnoddau Technoleg Swyddfa yn cael eu diweddarau ar y wefan. Yn ogystal, nodwyd bod angen adnoddau i gyd-fynd â chwrs ôl-16 Lefel 3

⁵³ Comisiwyd gan ELWa, a ddaeth yn rhan o Lywodraeth Cymru yn 2006.

Gweinyddiaeth Busnes. Roedd un ymarferwr yn defnyddio adnodd TGAU Astudiaethau Busnes (cyfieithiad). Nododd un ymarferwr bod gwefan 'Echelgais' yn ddefnyddiol (Hwb), ond y byddai ei rhoi ar fformat rhyngweithiol yn ddefnyddiol. Nododd un ymarferwr y byddai'n dymuno gweld Llyfrau Busnes Cymhwysol Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Gyfraith

9.30 Cwblhaodd dau ymarferwr a oedd yn addysgu Y Gyfraith yr holiadur i ymarferwyr. Nododd y ddau eu bod wedi defnyddio adnodd *Cyfundrefn Gyfreithiol Cymru a Lloegr (@ebol)* ac mai hwnnw oedd yr adnodd mwyaf defnyddiol yr oeddynt wedi ei ddefnyddio.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

9.31 Cafwyd trafodaethau gyda nifer o ymarferwyr cynradd, uwchradd ac addysg bellach ynglŷn ag adnoddau ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweiliadau gydag un cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgol uwchradd ac un mewn ysgol gynradd.

9.32 O ran yr ymateb i'r holiadur, un cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol allan o bedwar ymatebodd i'r cwestiwn ar ddefnydd adnoddau. Roedd un cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn defnyddio adnoddau cynradd llythrennedd a rhifedd gyda dysgwyr uwchradd a oedd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nodwyd bod angen defnyddio llawer o gemau gyda'r dysgwyr a bod adnoddau darllen a deall yn bwysig i'r grŵp hwn. Roedd y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn defnyddio adnoddau rhyngweithiol lle bo hynny'n bosibl a nodwyd bod hynny yn ddull effeithiol o ymgysylltu â'r dysgwyr hynny.

9.33 Yn eu cyfweiliadau, nododd pump o ymarferwyr eraill a oedd yn addysgu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol eu bod yn gorfod troi at

adnoddau a anelwyd at ddysgwyr iau er mwyn canfod adnoddau ac iaith addas ar gyfer dysgwyr is eu gallu. Nodwyd gan sawl ymarferwr nad oedd hyn yn ddelfrydol gan fod y dysgwyr yn gallu gweld nad oedd diwyg yr adnodd yn addas iddynt (e.e. cynnwys neu luniau yn rhy 'blentynnaidd'). Ategwyd y pwynt hwn gan ymarferwyr eraill gan gynnwys ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf.

- 9.34 Roedd rhai ymarferwyr Cymraeg Iaith Gyntaf o'r farn mai'r ffordd orau i gyflwyno tasgau ieithyddol i grwpiau ag anghenion dysgu ychwanegol oedd i ddatblygu adnoddau rhyngweithiol yn cynnwys tasgau patrymau iaith a chlipiau fideo i gyd-fynd â hynny.

10. Atodiad 2: Cwestiynau'r holiadur i ymarferwyr

10.1 Rhestrir y cwestiynau a holwyd yn yr holiadur i ymarferwyr isod.

1. Eich enw
2. Enw eich ysgol/sefydliad
3. A ydych chi yn:
 - athro/athrawes pwnc
 - pennaeth adran
 - pennaeth blwyddyn/cyfnod allweddol
 - arall (manylwch)
4. Pa ystod oedran ydych chi yn ei addysgu? (Ticiwch pob un sy'n berthnasol)
 - 3-7; 7-11; 11-14; 14-16; 16+
5. Ydych chi yn addysgu:
 - yn gyfangwbl, neu bron yn gyfangwbl, trwy gyfrwng y Gymraeg
 - yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg gyda pheth darpariaeth Saesneg
 - yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg gyda pheth darpariaeth cyfrwng Cymraeg
 - mewn ysgol cyfrwng Saesneg (yn addysgu Cymraeg fel ail iaith)
 - arall (nodwch yn gryno isod)
6. Gan bwy ydych yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar hyn o bryd?
 - Gan gydweithwyr
 - Gan yr awdurdod lleol
 - Gan Lywodraeth Cymru
 - Gan Gyngor Llyfrau Cymru
 - Gan CBAC
 - Gan gyhoeddwyr
 - Gan undebau athrawon
 - Arall (manylwch isod)

- Dydw i ddim yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg
7. Ar ba ffurf ydych yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar hyn o bryd?
- Ar lafar
 - Trwy'r post
 - Catalogau (e.e. Llywodraeth Cymru/Cyngor Llyfrau Cymru)
 - Siopau llyfrau
 - E-bost
 - Cyfryngau cymdeithasol
 - gwales.com
 - Hwb (GCaD/NGfL Cymru)
 - Gwefannau eraill (nodwch isod)
8. Beth yw eich barn ar y modd y caiff gwybodaeth ynglŷn ag adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ei dosbarthu/marchnata i ysgolion?
- Da iawn; Da; Nid yn dda nac yn wael; Gwael; Gwael iawn
9. Gan bwy fyddai orau gennych dderbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?
- Gan gydweithwyr
 - Gan yr awdurdod lleol
 - Gan Lywodraeth Cymru
 - Gan Gyngor Llyfrau Cymru
 - Gan CBAC
 - Gan gyhoeddwyr
 - Gan undebau athrawon
 - Arall (manylwch isod)
 - Dydw i ddim yn derbyn gwybodaeth am adnoddau cyfrwng Cymraeg
10. Ar ba ffurf sydd orau gennych dderbyn gwybodaeth am adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog?
- Ar lafar
 - Trwy'r post
 - Catalogau (e.e. Llywodraeth Cymru/Cyngor Llyfrau Cymru)

- Siopau llyfrau
 - E-bost
 - Cyfryngau cymdeithasol
 - gwales.com
 - Hwb (GCaD/NGfL Cymru)
 - Gwefannau eraill (nodwch isod)
11. Beth yw eich barn, yn gyffredinol, ar y dewis o adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael?
- Da iawn; Da; Nid yn dda nac yn wael; Gwael; Gwael iawn; Ddim yn gwybod
12. Pa mor bwysig ydy'r ffactorau canlynol wrth ddewis adnoddau ar gyfer eich dosbarth? (Pwysig iawn; Eithaf pwysig; Ddim yn bwysig; Amherthnasol)
- Cost
 - Addasrwydd i'r ystod oedran
 - Addasrwydd i allu'r disgyblion
 - Addasrwydd i'r cwricwlwm
 - Dyluniad a fformat
 - Adnodd gwreiddiol
 - Addasiad o adnodd sydd yn gyfarwydd
 - Deunyddiau electronig
 - Y gallu i ddefnyddio'r adnodd ar draws sawl pwnc
13. A ydych yn addysgu yn bennaf yn y sector:.
- Cynradd; Uwchradd; Addysg Bellach
14. Beth ydy'r prif bwnc yr ydych yn ei addysgu? [Dewis o bynciau]
15. Ticiwch unrhyw adnoddau yr ydych wedi eu defnyddio gan ddefnyddio'r rhestr isod o'r holl adnoddau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o fewn eich pwnc [Rhestrau wedi eu cynnwys fesul pwnc]
16. Os ydych yn dymuno, nodwch enwau hyd at bump o adnoddau eraill cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yr ydych yn eu defnyddio.
17. Atebwch y cwestiwn isod ar sail yr adnodd MWYAF defnyddiol yr ydych wedi ei ddefnyddio

18. Rhowch eich barn ar yr elfennau canlynol mewn perthynas â'r adnodd a enwir uchod (Da iawn; Da; Nid yn dda nac yn wael; Gwael; Gwael iawn; Amherthnasol)
- Ymateb y disgyblion/ myfyrwyr i'r adnodd
 - Addasrwydd yr adnodd i'r oedran targed
 - Yr iaith a therminoleg a ddefnyddir
 - Ansawdd yr adnodd
 - Fformat a dyluniad yr adnodd
 - Perthnasedd yr adnodd i'r cwricwlwm
19. Pa wahaniaeth y mae'r adnodd uchod yn ei wneud o ran y canlynol? (Gwahaniaeth mawr; Ychydig o wahaniaeth; Dim llawer o wahaniaeth; Dim gwahaniaeth o gwbl; Amherthnasol)
- Cefnogi datblygiad sgiliau y disgyblion
 - Ennyn chwilfrydedd y disgyblion
 - Helpu disgyblion i astudio yn annibynnol
 - Gwella safon gwaith y disgyblion
 - Arbed amser paratoi cyn gwersi neu yn y dosbarth
 - Helpu i gynllunio gwaith dosbarth a chartref
 - Helpu i baratoi ar gyfer asesiadau ac arholiadau
20. Pa mor nodweddiadol yw'r adnodd uchod o'r holl adnoddau yr ydych yn eu defnyddio?
- Mae adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn yn brin iawn
 - Mae rhai adnoddau eraill sydd mor ddefnyddiol â hwn
 - Mae nifer fawr o adnoddau sydd mor ddefnyddiol â hwn
21. Sut y gellid gwneud yr adnodd uchod yn fwy defnyddiol?
22. Atebwch y cwestiwn isod ar sail yr adnodd LLEIAF defnyddiol yr ydych wedi ei ddefnyddio
23. Pa elfennau o'r adnodd uchod oedd yn llai defnyddiol na fyddech wedi dymuno? (e.e. Ymateb y disgyblion/ myfyrwyr i'r adnodd, Addasrwydd yr adnodd i'r oedran targed, Yr iaith a therminoleg a ddefnyddir, Ansawdd yr adnodd, Fformat a dyluniad yr adnodd, Perthnasedd yr adnodd i'r cwricwlwm)
24. Sut y gellid gwneud yr adnodd uchod yn fwy defnyddiol?

25. A ydych wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer defnyddio unrhyw adnodd(au)?
- Ydw; Nac ydw; Ddim yn siŵr
26. Os ydych, beth yw eich barn ar yr hyfforddiant hwnnw?
- Da iawn; Da; Nid yn dda nac yn wael; Gwael; Gwael iawn; Ddim yn siŵr
27. A wnaethoch chi/ eich ysgol brynu'r adnodd yn dilyn derbyn hyfforddiant arno?
- Do; Naddo; Ddim yn berthnasol
28. A ydych yn defnyddio unrhyw adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog wrth addysgu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol?
29. Nodwch enwau hyd at dri o adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yr ydych yn eu defnyddio gyda disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
30. A ydych eisoes wedi mynegi barn ar yr adnoddau uchod yn yr holiadur hwn?
- Ydw; Nac ydw
31. A oes adnoddau penodol sydd ddim ar gael ar hyn o bryd y byddech yn hoffi eu gweld yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg? (e.e. adnoddau sydd ar gael mewn ieithoedd eraill)
- Oes; Nac oes; Ddim yn siŵr
32. Beth yw eich barn ar adnoddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd wedi eu haddasu o ieithoedd eraill?
- Yn fwy defnyddiol nag adnoddau gwreiddiol
 - Tua'r un mor ddefnyddiol ag adnoddau gwreiddiol
 - Yn llai defnyddiol nag adnoddau gwreiddiol
 - Amrywiol - mae'n dibynnu ar yr adnodd
 - Ddim yn siŵr
33. Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw sylwadau pellach ynglŷn ag adnoddau dysgu ac addysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog?

11. Atodiad 3: Adnoddau wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi

11.1 Nododd Llywodraeth Cymru bod nifer o adnoddau ar y gweill a fyddai yn berthnasol i'r anghenion a nodwyd gan ymarferwyr a chyhoeddwy'r yn ystod y gwaith maes. Mae'r Tabl 28 isod yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r adnoddau hyn.

Tabl 28. Adnoddau sydd wedi'u comisiynu ond heb eu cyhoeddi

Teitl	Cyhoeddwr	Pwnc
Addysg Ariannol – 4 nofel wreiddiol yn Gymraeg a Saesneg, Cyfnod Allweddol 2	Canolfan Peniarth	Addysg ariannol
Storiau cymdeithasol ar gyfer plant sbectrwm awtistig, Cyfnod Allweddol 2	Atebol	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Llyfrau darllen ar gyfer dysgwyr anghenion dysgu ychwanegol, Cyfnod Allweddol 2	Canolfan Peniarth	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Deunyddiau iaith Gymraeg i ddysgwyr dall ac â golwg rhannol ar draws y cyfnodau allweddol	RNIB	Anghenion Dysgu Ychwanegol
Llyfrau stori a dysgu gweithredol - llyfrau darllen, cardiau a thafleuni gweithgaredd, Cyfnod Sylfaen	St Mary's Centre	Addysg grefyddol
Chwe llyfr darllen a phecon gweithgareddau ar themau poblogaidd, Cyfnod Sylfaen	St Mary's Centre	Addysg grefyddol
Llyfrau Cymraeg mewn Addysg Grefyddol - llyfrau a deunydd cefnogi ar leoliadau crefyddol ac ysbrydol yng Nghymru - ar gyfer Cyfnod Allweddol 2	St Mary's Centre	Addysg grefyddol
Herio Materion Addysg Grefyddol - Cylchgrawn dwyieithog o erthyglau yn trafod materion cyfoes â chyswllt gyda addysg grefyddol - 16+	St Mary's Centre	Addysg grefyddol
Archwilio, ymgysylltu a mynegi - Adnodd i'r dysgwr a llawlyfr i'r athro i wella datblygu sgiliau mewn addysg grefyddol Cyfnod Allweddol 3	CAA	Addysg grefyddol
Casgliad Celf Cymru - Pecyn o gardiau A3 a chardiau post o gelf Cymru ar gyfer oedran 7 - 16+	LondonMet	Celf
Adnoddau ar-lein i gefnogi Celfyddydau Perfformio TGAU, Cyfnod Allweddol 4	Telesgop	Cerddoriaeth
Casgliad o gyfieithiadau o ganeuon a sioeau cerdd ar gyfer oed uwchradd 11-16+	Y Lolfa	Cerddoriaeth
Casgliad o drefniadau offerynnol, Cyfnodau Allweddol 2 a 3	CAA	Cerddoriaeth
Cerddoriaeth Uwchradd Iau - adnodd digidol yn canolbwyntio ar gyfansoddi ac arfarnu, Cyfnod Allweddol 3	CBAC	Cerddoriaeth
Diweddarau Moodle Cymraeg	Cymen	Cyffredinol
Termiadur addysg ar lein - datblygu a diweddarau ymhellach	Canolfan Bedwyr	Cyffredinol
Wenfro O! Gwyn eich byd – a gwyrdd! Cyfres o lyfrau a gweithgareddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen	Gomer	Cyfnod sylfaen

Llyfrau darllen heriol cynradd, Cyfnodau Allweddol 2 a 3	Dref Wen	Cymraeg
Cyfres o lyfrau darllen byrion gwreiddiol, Cyfnod Allweddol 2	Y Lolfa	Cymraeg
10 nofel wreiddiol, Cyfnod Allweddol 2	Gomer	Cymraeg
Llyfrau Llywio Darllen ail iaith gyda gweithgareddau ar-lein, Cyfnod Allweddol 2	CAA	Cymraeg
Llyfrau Llafar Llais a Phrint, Cyfnod Sylfaen	CAA	Cymraeg
Cyfres Lolipop - pum nofel newydd yn y gyfres, Cyfnod Allweddol 2	Gomer	Cymraeg
e- lyfr Hwyl y Limrigau newydd i gyd-fynd a'r adnodd print, Cyfnod Allweddol 2	Carreg Gwalch	Cymraeg
Geiriaduron cynradd - cyfres o dri geiriadur i ennyn dealltwriaeth dysgwyr o ddefnyddio geiriadur, 3-11 oed	Gomer	Cymraeg
Gêm rheolau sillafu - gêm fwrdd ac ap i ennyn dealltwriaeth a diddordeb dysgwyr mewn rheolau sillafu, Cyfnod Allweddol 2	Atebol	Cymraeg
Casgliad o straeon byrion - dwy gyfrol i gyflwyno storïau byrion, Cyfnod Allweddol 2	Y Lolfa	Cymraeg
Cyfres Dechrau Da - 20 teitl arall yn y gyfres, Cyfnod Allweddol 2	Gomer	Cymraeg
Geiriadur Cymraeg Gomer	Gomer	Cymraeg
Llyfrau darllen heriol gwreiddiol, Cyfnodau Allweddol 2 a 3	Y Lolfa	Cymraeg
Pecynnau thematig llythrennedd, Cyfnodau Allweddol 2 a 3	Atebol	Cymraeg
Gweiddi: e-gylchgrawn misol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3	Tinopolis	Cymraeg
Blodeugerdd o gerddi'r 20fed a 21ain ganrif. Llyfr ac ap gyda nodiadau cynhwysfawr ar ddeholiad o'r cerddi, Cyfnod Allweddol 3 a 4	Gomer	Cymraeg
Seren Iaith 2 - llyfr ac ap gramadeg, Cyfnod Allweddol 4	Atebol	Cymraeg
Deunydd anllenyddol ar Lefel 2/3: deunydd digidol ar destunau anllenyddol fydd yn galluogi dysgwyr i fynegi barn, crynhoi, dehongli gwybodaeth a chroesgyfeirio rhwng testunau addas ar gyfer Bac Gymraeg a phynciau Safon Uwch	CAA	Cymraeg
Cymraeg ar draws yr ysgol: set o gardiau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn pynciau eraill, Cyfnod Allweddol 3	Canolfan Peniarth	Cymraeg ail iaith
Pecyn rhyngweithiol ail iaith cymhwysol, Cyfnod Allweddol 4	Canolfan Peniarth	Cymraeg ail iaith
Cynllun Darllen Fflic a Fflac - pedwar pecyn o lyfrau sy'n annog plant ail iaith i ddarllen Cymraeg yn annibynnol, Cyfnod Sylfaen	Tinopolis	Cymraeg ail iaith
Y Pod Antur - Pecyn adnoddau amlgyfrwng, Cyfnod Allweddol 2	Tinopolis	Cymraeg ail iaith
Pecynnau dysgu ac addysgu rhyngweithiol, Cyfnod Allweddol 3	Tinopolis	Cymraeg ail iaith
Y Ditectif Geiriau - cyfres o bedwar llyfr darllen a deall a gweithgareddau ar-lein er mwyn cyfarwyddo â chynnwys y profion darllen cenedlaethol, 9-11 oed	Canolfan Peniarth	Cymraeg
Cardiau camau llwyddiant - set o gardiau i'w defnyddio mewn sesiynau trafod i godi safon ysgrifennu'r dysgwyr. Addas o flwyddyn 1 i flwyddyn 6	Canolfan Peniarth	Cymraeg
Ynni amgen - adnoddau ar-lein i gefnogi Dylunio a Thechnoleg, Cyfnod Allweddol 2	Telesgop	Dylunio a Thechnoleg
<i>Achub</i> : Adnodd rhyngweithiol, gyda chysylltiadau trawsgwricwlaidd, Cyfnod Allweddol 2	Canolfan Peniarth	Dylunio a Thechnoleg
Tirluniau Cymru trwy gyfrwng chwedlau - adnoddau digidol ar dirwedd a chwedlau, Cyfnod Allweddol 2	Canolfan Peniarth	Daaryddiaeth
Sgiliau ymchwilio ar gyfer UG/A2, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Daaryddiaeth
Ein Byd – adnodd ar-lein sy'n seiledig ar sgiliau, Cyfnod Allweddol 2	Canolfan Peniarth	Daaryddiaeth

Theatr gorfforol/dyfeisio - deunydd ar-lein i gyflwyno a datblygu gwybodaeth myfyrwyr o'r theatr gorfforol, Cyfnod Allweddol 4 a 5	CBAC	Drama
Drama wreiddiol, Cyfnod Allweddol 4	Canolfan Peniarth	Drama
UG Ffiseg - Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Gwyddoniaeth
Bywyd Ddoe - adnodd yn portreadu bywyd bob dydd dros yr 20fed ganrif, Cyfnod Sylfaen	Dref Wen	Hanes
Byw yn yr Ugeinfed Ganrif: Deunyddiau digidol ar y cyfnod 1950-2000, Cyfnod Allweddol 2	Canolfan Peniarth	Hanes
Gwerslyfrau Hanes TGAU - Tri llyfr gwreiddiol ar bynciau sydd â dimensiwn Cymreig, Cyfnod Allweddol 4	CAA	Hanes
Wythnos ym mywyd... Pecynnau ychwanegol yn y gyfres, Cyfnod Allweddol 2	CAA	Hanes
Cylchgrawn Digidol Hanes - Cylchgrawn ar gyfer myfyrwyr o erthyglau wedi'u cyfieithu, Cyfnod Allweddol 5 Safon Uwch	CAA	Hanes
E-llyfr Brwydr Coed Mametz 1916, Cyfnod Allweddol 3	CAA	Hanes
Geiriadur Ffrangeg - CymraegTGAU, Cyfnod Allweddol 4	CAA	leithoedd Tramor Modern
E-gylchgrawn ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio TGAU Ffrangeg, Almaeneg a/neu Sbaeneg, Cyfnod Allweddol 4	CBAC / WJEC	leithoedd Tramor Modern
Pecyn cyfieithu - deunyddiau ymarfer cyfieithu rhyngweithiol ar gyfer dysgwyr sy'n astudio Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg, Cyfnod Allweddol 5 Safon Uwch	Atebol	leithoedd Tramor Modern
Geiriadur Sbaeneg/Cymraeg a geiriadur Almaeneg/Cymraeg TGAU, Cyfnod Allweddol 4	Tinopolis	leithoedd Tramor Modern
Adnodd Arlwyo - Casgliad o glipiau technegau coginio a ryseitiau ar gyfer myfyrwyr 16+	Rondo Media	Llety ac Arlwyo
Deunyddiau rhyngweithiol ar gyfer Lletygarwch ar gyfer disgyblion 16+	Telesgop	Llety ac Arlwyo
UG Mathemateg Craidd 1 a 2 - Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Mathemateg
Materion moesol, moesegol, cyfreithiol, a chymdeithasol ynghylch defnydd TGCh ar-lein, Cyfnod Allweddol 3	CBAC	TGCh
UG Y Gyfraith - Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Y Gyfraith
UG Bioleg - Llyfr Myfyriwr, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Gwyddoniaeth
Geirfa Mathemateg: adnodd digidol fydd yn datblygu'r llyfr 'Geirfa Mathemateg', Cyfnodau Allweddol 3 a 4	CBAC	Mathemateg
Y Gyfraith U2: Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Y Gyfraith
Mathemateg U2: Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Mathemateg
Ffiseg U2: Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Gwyddoniaeth
Cemeg U2: Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Gwyddoniaeth
Astudiaethau Crefyddol UG: Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Addysg grefyddol
Bioleg U2: Canllaw Astudio ac Adolygu, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Gwyddoniaeth
Bioleg U2: Llyfr y Myfyriwr, Cyfnod Allweddol 5	CBAC	Gwyddoniaeth
Nodiadau Adolygu TGAU Lletygarwch ac Arlwyo, Cyfnod Allweddol 4	CBAC	Lletygarwch ac Arlwyo
Rwsia mewn Cyfnod o Drawsnewid - adnodd digidol, Cyfnod Allweddol 4	CBAC	Hanes

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru